



Swyddfa Gartref

## **Plismona yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif: Ailgysylltu'r heddlu a'r bobl**

# Plismona yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif: Ailgyssylltu'r heddlu a'r bobl

Rhagair y Gweinidog

Pennod 1: Yr her

Pennod 2: Cynyddu atebolrwydd democrataidd

Pennod 3: Dileu atebolrwydd biwrocraidaidd

Pennod 4: Fframwaith cenedlaethol ar gyfer plismona lleol effeithlon

Pennod 5: Mynd i'r afael â throseddau gyda'n gilydd

## **(h) Hawlfraint y Goron 2010**

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon (ar wahân i'r Arfbeisiau Brenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhychu'n gywir ac nas defnyddir mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl y ddogfen.

Pan fyddwn wedi cyfeirio at unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw

ISBN: 9780101792523

Argraffwyd yn y DU gan y Llyfrfa ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

P002381616 07/10 19585 4861

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr a ailgylchwyd.

## Rhagair y Gweinidog



Gweledigaeth y Llywodraeth hon yw sicrhau cymdeithas rydd, teg a chyfrifol. Wrth wraidd y weledigaeth honno, mae proses radical o drosglwyddo pŵer a rheolaeth oddi wrth y Llywodraeth a'u rhoi yn ôl i bobl a chymunedau. Mae hynny'n fwy perthnasol i'n cynlluniau ar gyfer diwygio plismona nag mewn unrhyw faes arall. Mae diwygio yn hollbwysig. Mae ymyrraeth gynyddol gan y Llywodraeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi newid ffocws yr heddlu. Mae bellach yn ymateb i dargedau'r Llywodraeth a biwrocratiaeth yn hytrach na phobl. Mae wedi datgysylltu oddi wrth y cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu. Mae gormod o droseddau o hyd; mae gormod o unigolion a chymdogaethau yn dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol; a dim ond ychydig dros hanner y cyhoedd sydd â'r hyder yr ymdrinnir â'r materion sydd o bwys yn lleol. Ar yr un pryd, mae'r heriau a wynebwn wedi newid. Mae terfysgaeth, twf mewn troseddau cyfundrefnol difrifol a seiberdroseddau oll yn gofyn am ddulliau gweithredu sy'n croesi ffiniau rhyngwladol yn ogystal â ffiniau heddluoedd.

Nid yw cenhadaeth yr heddlu, a bennwyd gan Syr Robert Peel, sef atal troseddau ac anhrefn, wedi newid yn y bôn, nac ychwaith ymroddiad y swyddogion a'r staff sydd wedi gwasanaethu ers hynny. Ond dros amser, mae'r model ar gyfer plismona a ddechreuwyd gan Peel wedi'i erydu'n raddol. Roedd ei fodel chwyldroadol ar gyfer plismona yn Llundain mor llwyddiannus fel y bu i'r Senedd ddeddfu i gael cyrff tebyg ledled y wlad ond a oedd yn destun atebolrwydd lleol gan bobl a oedd yn gyfarwydd â'r ardal a'r hyn a oedd ei angen - ynadon a chynghorwyr i ddechrau ar ffurf gynnar yr hyn a fyddai'n awdurdodau'r heddlu maes o law. Fodd bynnag, dros amser, cynyddodd rôl Llywodraeth ganolog. Wrth i nifer yr heddluoedd leihau, ymgymerrodd awdurdodau'r heddlu ag ardaloedd mwy. Ers hynny, maent yn anweledig ac yn bell oddi wrth bobl leol, heb y gallu na'r mandad i fynnu blaenoriaethau pobl leol. Yn hytrach, ceisiodd Llywodraeth ganolog lenwi'r bwloch drwy bennu blaenoriaethau a pherfformiad lleol.

Felly, er mwyn cyflawni cenhadaeth Peel o atal troseddau ac anhrefn (sef yr hyn a elwir yn ymddygiad gwrthgymdeithasol bellach), mae angen i ni ddiwygio plismona yn y wlad unwaith eto; gan adfer y cysylltiad unwaith eto rhwng yr heddlu a'r bobl, gan roi'r cyhoedd yn ôl wrth y llyw a galluogi'r heddlu i ymateb i'r heriau newydd o ran troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r papur hwn yn cynnig y newid mwyaf radical i blismona mewn 50 mlynedd. Byddwn yn trosglwyddo pŵer mewn plismona - gan gyflwyno atebolrwydd democrataidd yn lle atebolrwydd biwrocataidd.

Yn gyntaf, byddwn yn trosglwyddo pŵer yn ôl i'r bobl - drwy gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi'u hethol yn uniongyrchol, a fydd yn cynrychioli eu cymunedau, yn deall eu blaenoriaethau o ran troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am eu cyflawni, a gallu ei ddiswyddo os nad yw'n gwneud hynny. Bydd Prif Gwnstablaid yn gyfrifol am weithrediadau eu heddlu o ddydd i ddydd ond byddant yn atebol i'r cyhoedd drwy'r unigolion hyn ac nid Whitehall. Gyda'i gilydd, byddant yn arwain y frwydr yn erbyn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd ein cynlluniau yn golygu bod yr heddlu yn fwy atebol, yn fwy hygyrch ac yn fwy tryloyw i'r cyhoedd gan wneud ein cymunedau yn fwy diogel. Bydd cyfarfodydd rhawd rheolaidd yn galluogi pobl i herio perfformiad yr heddlu a bydd data hygyrch am droseddau 'ar lefel stryd' yn taflu goleuni ar dueddiadau a phryderon lleol o ran troseddau.

Yn ail, byddwn yn trosglwyddo pŵer oddi wrth y Llywodraeth - gan ymddiried yng ngweithwyr proffesiynol yr heddlu. Byddwn yn dileu targedau canolog. Nid llenwi ffurflenni y bydd staff rheng flaen yn ei wneud mwyach ond ymladd troseddau: cânt eu rhyddhau oddi wrth fiwrocraetiaeth ac arweiniad canolog ac ymddiriedir ynddynt i arfer eu proffesiynoldeb i ymgymryd â'u gwaith.

Yn drydydd, byddwn yn newid ffocws y Llywodraeth. Ceisiodd y Llywodraeth flaenorol ficoreoli plismona lleol ond ni chefnogodd heddluoedd yn effeithiol ar faterion cenedlaethol. Byddwn yn newid hyn. Byddwn yn creu Asiantaeth Troseddau Genedlaethol newydd i arwain y frwydr yn erbyn troseddau cyfundrefnol, diogelu ein ffiniau a darparu gwasanaethau a ddarperir orau yn genedlaethol.


Rydym am sicrhau na chaiff yr 'edau aur' sy'n rhedeg o blismona lleol ar draws ffiniau heddluoedd ac yn rhyngwladol ei thorri. I ategu datganoli pŵer ar raddfa fawr i heddluoedd lleol, ceir dull gweithredu cryfach a symlach sy'n canolbwyntio ar y materion hynny y mae angen eu cydgysylltu'n genedlaethol.

Bydd yn rhaid cyflwyno'r newidiadau hyn yn ystod cyfnod pan geir toriadau difrifol ac anodd mewn cyllidebau. Rwyf wedi'i nodi'n glir eisoes y bydd yn rhaid i'r heddlu ymgymryd â'i gyfran deg o'r baich. Dyna pam y bydd yn rhaid i werth am arian lywio popeth y mae'r heddlu yn ei wneud.

Mae'r heddlu yn gyfrifol am gadw pobl yn ddiogel; gan leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rwyf yn hyderus y bydd yr heddlu yn gwneud popeth yn ei allu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw, a chadw gwasanaeth rheng flaen yr heddlu ar gyfer cymunedau lleol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynlluniau ar gyfer diwygio'r heddlu, gan gynnwys elfennau a fydd yn rhan o Fesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol y byddwn yn ei gyflwyno yn ystod yr Hydref. Maent yn gyfleoedd cyffrous newydd i unigolion, cymunedau a swyddogion yr heddlu ar bob lefel lywio dyfodol plismona. Rydym am glywed eich barn ar y ffordd orau y gallwn wneud i'r diwygiadau weithio.

Credaf y bydd y diwygiadau radical hyn yn creu pont gref newydd rhwng yr heddlu a'r cyhoedd. Yn gryno, byddant yn sicrhau plismona i'r bobl.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Theresa May', with a large, sweeping initial stroke.

**Y GWIR ANRHYDEDDUS THERESA MAY AS  
YSGRIFENNYDD CARTREF**

## Pennod 1: Yr her

1.1 Er bod y DU yn gwario mwy ar gyfiawnder troseddol nag unrhyw wlad debyg arall, ceir nifer gymharol uchel o droseddau o hyd o'i chymharu â gwledydd cyfagos<sup>1</sup>. Mae gormod ohonom yn ofni troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol<sup>2</sup> ac rydym yn cau ein llygaid pan fyddwn yn ei weld - yn aml am ein bod yn ofni'r canlyniadau, yn hytrach nag am nad oes gwahaniaeth gennym neu am na allwn fynd i'r drafferth.<sup>3</sup> Yn yr Almaen, dywedodd dwy ran o dair o bobl y byddent yn ymyrryd i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn y DU byddai drwy ran o dair yn peidio ag ymyrryd.<sup>4</sup> Ar ôl blynyddoedd o gyllidebau cynyddol a niferoedd cynyddol yr heddlu, ceir gormod o droseddau o hyd, mae pobl yn dal i deimlo'n anniogel ac mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael effaith andwyol ar ormod o gymunedau.

1.2 Nododd egwyddor blismona gyntaf Syr Robert Peel: "The basic mission for which the police exist is to prevent crime and disorder". Mae hyn yn parhau i fod yn wir, ond mae'r heriau sy'n wynebu cymunedau a'r heddlu wedi newid dros amser. Ers y 1960au, mae technolegau newydd wedi helpu'r heddlu i gyd-fynd â'r datblygiadau yn y ffordd y caiff troseddau eu cyflawni. Ceir cyfathrebu rhwng ceir patrôl a thrwy'r radio i gyfateb i symudedd cynyddol troseddwy; mae'r gwaith o ddadansoddi manau lle y ceir llawer o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn galluogi timau ymateb i weld ble y dylent gael eu targedu.

1.3 Ond er bod technoleg wedi galluogi'r heddlu i ymdrin â mathau newydd o droseddau a throseddwy, mae'r broses barhaus o ganoli'r heddlu yn golygu bod y gwasanaeth wedi'i ddatgysylltu oddi wrth y cymunedau y dylai eu gwasanaethu. Bwlch atebolrwydd, nid technoleg, yw'r bwlch y mae angen i ni ei lenwi heddiw.

1.4 Yn ystod y degawd diwethaf, mae Llywodraeth ganolog wedi ymyrryd yn gynyddol mewn plismona lleol er mwyn ceisio sicrhau ei fod yn fwy atebol. Bu rhestr gynyddol o ddeddfwriaeth â'r nod penodol o ganoli plismona. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cael pwerau cynyddol gryfach i ymyrryd; i bennu amcanion cenedlaethol; i gyhoeddi data yn ymwneud â pherfformiad; i gyhoeddi codau ymarfer a chanllawiau; ac i gyfarwyddo awdurdodau'r heddlu. Yn 2001, parhaodd y broses ganoli hon yn sgîl creu Uned Safonau'r Heddlu yn y Swyddfa Gartref. Ei nod oedd atgyfnerthu perfformiad unedau rheoli lleol yr heddlu ac, ymhen amser, byddai'n ymyrryd mewn heddluoedd a oedd yn methu. Nid yw'r cyhoedd yn ymddangos unrhyw le yn y rhestr hir o ddiwygiadau fel y rhwystrau a'r gwrthbwyso democrataidd naturiol y cyfeiriodd Peel atynt yn 1829 fel sylfaen gweithgarwch yr heddlu.

1.5 Mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau i wneud cysylltiadau gwell â'i gymuned a'i bartneriaid. Yn benodol, ceir partneriaid pwysig lleol yn y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol ac mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno Timau Plismona yn y Gymdogaeth dynodedig y mae eu cymunedau yn eu gwerthfawrogi. Mae'r holl ddiwygiadau hyn yn glodwiw, wedi'u hysgogi gan yr uchelgais cywir. Mae wedi gwneud rhywfaint i

---

<sup>1</sup> Criminal Victimization in International Perspective [http://rechten.uvt.nl/icvs/pdf/files/ICVS2004\\_05.pdf](http://rechten.uvt.nl/icvs/pdf/files/ICVS2004_05.pdf)

<sup>2</sup> Mae 53% o bobl yn y DU yn nodi bod 'troseddau a thrais' yn un o'r tri pheth sy'n eu pryderu fwyaf, o gymharu â 40% yn yr Eidal, 33% yn Ffrainc ac 20% yn Sbaen, Ipsos-MORI, Mai 2009

<sup>3</sup> Casey, L, Engaging Communities in Fighting Crime, Swyddfa'r Cabinet (2008)

[http://www.cabinetoffice.gov.uk/media/cabinetoffice/corp/assets/publications/crime/cc\\_summary.pdf](http://www.cabinetoffice.gov.uk/media/cabinetoffice/corp/assets/publications/crime/cc_summary.pdf)

<sup>4</sup> Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn herio grŵp o fechgyn 14 oed a oedd yn fandaleiddio cysgodfan fysiau, dywedodd 64% o'r ymatebwyr yn yr Almaen y byddent yn eu herio fwy na thebyg neu'n bendant, o gymharu â 62% o ymatebwyr ym Mhrydain a ddywedodd na fyddent yn eu herio fwy na thebyg neu'n bendant. Anti-Social Behaviour Across Europe, ADT, 2006

ddatganoli'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy i sicrhau ei fod yn fwy atebol i bobl leol.

1.6 Ni chydabu dull gweithredu blaenorol y Llywodraeth y problemau a oedd yn fwy sylfaenol. Ni chydabu mai'r cyhoedd, nid y Llywodraeth, a ddylai fod wrth y llyw, sef y rhai sy'n dioddef pan nad yw pethau yn gweithio. A thanseiliwyd disgresiwn proffesiynol yr heddlu - gan yrru hollt rhwng yr heddlu a'r cyhoedd y dylai ei wasanaethu.

1.7 Gwnaeth y dull gweithredu a mentrau penodol wyrdroi'r gydberthynas deiran sy'n sail i blismona - y gydberthynas genedlaethol rhwng Llywodraeth ganolog, arweinyddiaeth broffesiynol y gwasanaeth a'r rhai sy'n gyfrifol am ei atebolrwydd lleol. Ymyrrodd Llywodraeth ganolog yn ormodol mewn materion lleol, ac ni ddarparodd yr her na'r gefnogaeth gywir i faterion plismona a oedd yn mynd y tu hwnt i ffiniau heddluoedd. Tanseiliwyd barn gweithwyr proffesiynol, gan olygu iddynt ymochel y tu ôl i fiwrocratiaeth, gan edrych i fyny tuag at Whitehall, yn hytrach na thuag allan i'r cyhoedd y gwnaethant ymuno i'w gwasanaethu. Gwnaeth partneriaethau gamau mawr i geisio cydweithio i atal troseddau, ond cawsant eu tynnu mewn cyfeiriadau croes gan adrannau gwahanol o'r Llywodraeth.

1.8 Mae'r heriau y mae gwasanaeth yr heddlu bellach yn eu hwynebu yn gofyn am ddull gweithredu newydd.

#### Heriau gwasanaeth sy'n atebol i Whitehall yn hytrach na'r cyhoedd

1.9 Er mwyn lleihau troseddau, mae plismona yn dibynnu nid dim ond ar gydsyniad y bobl ond ar eu cydweithrediad. Ond nid yw'r cwlwm rhwng yr heddlu a phobl leol yn ddigon cryf. Anogwyd yr heddlu i ganolbwyntio ar y materion y mae gwleidyddion cenedlaethol wedi'i hysbysu eu bod yn bwysig yn hytrach na phryderon cymunedau lleol. Mae adroddiadau i Weinidogion a gweision sifil yn Whitehall wedi cael blaenoriaeth dros wybodaeth i helpu'r cyhoedd i farnu pa mor dda y mae gwasanaeth yr heddlu yn ei wneud.

1.10 Llywiwyd targedau a safonau mewn plismona gan Whitehall yn hytrach na chan y cyhoedd. Ar eu gorau, nid yw targedau na safonau cenedlaethol wedi ystyried anghenion lleol, ac ar eu gwaethaf, maent wedi erydu cyfrifoldeb proffesiynol Prif Gwnstabiaild i wneud penderfyniadau i ddiwallu anghenion penodol eu cymunedau lleol. Yn rhy aml, mae targedau wedi arwain at gymhellion gwrthnysig. Er enghraifft, cymhellwyd swyddogion gan y targed o ran 'Troseddau y Gweinyddwyd Cyfiawnder yn eu Cylch' i ymdrin â datrysiadau lefel uchel hawdd eu cyflawni yn hytrach na chanolbwyntio ar droseddau mwy difrifol.

1.11 Mae llawer o aelodau unigol o awdurdodau'r heddlu wedi gwneud ymdrech fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella ymatebolrwydd yr heddlu a chynrychioli cymunedau lleol. Ond er gwaethaf yr ymdrechion hyn, yn aml nid yw'r cyhoedd yn ymwybodol o awdurdodau'r heddlu eu hunain. Mewn adolygiad gan Swyddfa'r Cabinet yn 2007, tynnwyd sylw at y ffaith mai dim ond 7% o'r cyhoedd a oedd yn gwybod mai eu Hawdurdod yr Heddlu y dylent gysylltu ag ef pe bai problem ganddynt o ran plismona yn eu hardal leol. Nid yw'r cyhoedd yn gwybod sut i ddylanwadu ar blismona lleol, heb sôn am gymryd rhan weithredol ynddo. Nid oes ffordd uniongyrchol i'r cyhoedd newid na herio'r rhai sy'n llywodraethu plismona ar eu rhan.

### Heriau gweithwyr proffesiynol wedi'u dadgrymuso

1.12 Yn ogystal â pheri diffyg cyswllt cynyddol rhwng yr heddlu a'r bobl, mae Whitehall wedi dadgrymuso'r heddlu ei hun.

1.13 Mae'r heddlu wedi bod ynghlwm wrth fiwrocratiaeth gan ddilyn canllawiau canolog a oedd yn nodi sut y dylai wneud ei waith yn hytrach nag arfer ei farn broffesiynol i fynd ati i wasanaethu ei gymunedau. Mae'r heddlu bellach yn llenwi ffurflenni yn hytrach nag ymladd troseddau, ac mae biwrocratiaeth a chanllawiau canolog rhy rhagnodol wedi golygu eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth y cyhoedd. Er gwaethaf y niferoedd uchaf erioed o swyddogion a staff yr heddlu, mae'r heddlu yn treulio llai o amser ar y stryd.

1.14 Nid Llywodraeth ganolog yn unig sydd wedi creu biwrocratiaeth. Ceir rhai prosesau aneffeithlon a biwrocraidd o fewn yr heddlu ei hun y mae angen ymdrin â hwy, er enghraifft ffurflenni neu ganllawiau a grëwyd gan heddluoedd eu hunain i'w diogelu eu hunain mewn diwylliant sy'n rhy amharod i gymryd risg. Mae swyddogion a staff yr heddlu yn cael eu gorlethu gan yr holl ganllawiau plismona canolog a gaiff eu cyhoeddi. Yn ystod y llynedd yn unig, cyhoeddwyd rhyw 52 o ddogfennau ac roedd 60 o ddogfennau eraill ar y cam cynllunio. Hyd cyfartalog dogfennau o'r fath oedd ychydig o dan 100 o dudalennau. Roedd y llawlyfrau hyn yn cynnwys dros 4000 o addewidion newydd, gan gwmpasu dyletswyddau megis plismona gemau criced rhyngwladol a chasglu data ar gyfer pobl ar goll.

1.15 Mae targedau cenedlaethol, ffrydiau ariannu lluosog a chanllawiau cyfyngol wedi tynnu partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol mewn cyfeiriadau gwahanol hefyd, gan feithrin cydberthnasau ffurfiol cymhleth a biwrocraidd yn hytrach na chanolbwyntio'n ymarferol ar y canlyniadau sydd o bwys i'w cymunedau. Mae gormod o reoleiddio a gwladwriaeth gynyddol ymwithiol wedi cymryd lle greddf pobl leol a sefydliadau gwirfoddol. Mae angen i ni symud y tu hwnt i oes atebolrwydd biwrocraidd i oes atebolrwydd democrataidd.

### Heriau gweledd ac argaeledd

1.16 Mae adroddiad a gyhoeddwyd y mis hwn gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC), *Valuing the Police*, yn dangos, o ganlyniad i'r ffurflenni biwrocraidd, y canllawiau rhy rhagnodol a'r canllawiau canolog mai dim ond 11% o swyddogion yr heddlu sydd ar gael i'r cyhoedd ar unrhyw adeg.<sup>5</sup> Nid dyma'r gwasanaeth y dylai'r cyhoedd ei ddisgwyl. Dylai'r cyhoedd ddisgwyl i'r heddlu fod ar y strydoedd, yn weladwy ac ar gael i wasanaethu'r cyhoedd a'u cadw'n ddiogel.

1.17 Ond dros y degawd diwethaf, disgwyliid i wasanaeth yr heddlu ar bob lefel, o Brif Gwnstablïaid i weithwyr proffesiynol rheng flaen, ymdrin â disgwyliadau cynyddol gymhleth. Mae heriau newydd - yn fwyaf amlwg gwaith gwrthderfysgaeth, ond hefyd y twf mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol, seiberdroseddau, troseddau economaidd, amddiffyn plant a thrais domestig - bellach yn ganolog i blismona. Caiff yr angen am waith llawer mwy effeithiol gydag awdurdodau lleol, y system cyfiawnder troseddol ehangach a llawer o bartneriaid eraill, er nad yw byth yn hawdd, ei gymryd yn ganiataol yn gynyddol. Mae'n rhaid ymateb i'r heriau hyn tra'n cynnal disgwyliad parhaus y

---

<sup>5</sup> Valuing the Police, HMIC, 2010,

[http://www.hmic.gov.uk/SiteCollectionDocuments/Value%20for%20Money/TP\\_NFS\\_20100720.pdf](http://www.hmic.gov.uk/SiteCollectionDocuments/Value%20for%20Money/TP_NFS_20100720.pdf)



cyhoedd - yn gywir ddigon - sef bod yr heddlu yn fwy gweladwy ac ar gael yn fwy ar eu strydoedd.

#### [Heriau adnoddau sy'n tynhau

1.18 Mae gwariant ar yr heddlu wedi cynyddu 24% mewn termau real ers 2000/01 a £13 biliwn y flwyddyn ydyw heddiw. Dros y degawd diwethaf, mae gwariant cyhoeddus wedi canolbwyntio ar arian yn hytrach na gwerth am arian; mewnbwn a niferoedd swyddogion a staff yn hytrach na chanlyniadau. Mae'r Llywodraeth a heddluoedd wedi gwastraffu arian, megis y £6m a wariwyd i hysbysebu'r Addewid Plismona, gan ddweud wrth bobl am yr hyn y dylai'r heddlu ei wneud, yn hytrach na sicrhau y caiff arian ei ddefnyddio i ymladd troseddau.

1.19 Yn y Gyllideb ar 22 Mehefin 2010, cyhoeddodd y Canghellor y bydd Adrannau 'heb eu diogelu' - gan gynnwys y Swyddfa Gartref - yn wynebu toriadau real dros y pedair blynedd nesaf. Bydd yn rhaid i gyllid yr heddlu ymgymryd â'i gyfran deg o'r her hon. Yn ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi terfynau gwariant adrannol ar 20 Hydref, a chaiff cynigion ar gyfer cyllidebau heddluoedd unigol eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

#### Dull gweithredu newydd

1.20 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu sicrhau cydbwysedd eto yn y gyberthynas deiran er mwyn ymdrin â'r materion sylfaenol hyn. Mae rolau a chyfrifoldebau clir gydag 'edau aur' plismona Prydeinig - o'r genedlaethol a'r rhyngwladol i'r lleol iawn - wedi'u hadnewyddu a'u hatgyfnerthu, wrth wraidd strategaeth y Llywodraeth ar gyfer plismona yn ystod y blynyddoedd i ddod. Mae'r ddogfen hon yn rhoi rhagor o fanylion am y blaenoriaethau a'r camau nesaf.

1.21 Mae'n nodi bargaen newydd i'r cyhoedd a bargaen newydd i wasanaeth yr heddlu. Bargaen lle y mae'r cyhoedd wrth y llyw a lle y gall yr heddlu ganolbwyntio ar leihau troseddau a gwneud i bobl deimlo'n ddiogel.

- Byddwn yn grymuso'r cyhoedd: gan gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi'u hethol yn uniongyrchol a fydd yn rhoi llais i'r cyhoedd ac yn atgyfnerthu'r cwlwm rhwng y cyhoedd a'r heddlu drwy fwy o atebolrwydd a thryloywder fel bod gan bobl fwy o hyder yn yr heddlu i ymladd troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. (Pennod 2)
- Byddwn yn grymuso'r heddlu: gan ddileu atebolrwydd biwrocraidd, adfer cyfrifoldeb proffesiynol a rhyddhau amser swyddogion i ymgymryd â'u gwaith, mewn cymunedau lleol yn hytrach nag yn gwneud gwaith papur neu'n mynd i gyfarfodydd. (Pennod 3)
- Byddwn yn newid pwyslais y Llywodraeth genedlaethol: gan sicrhau bod yr heddlu yn effeithiol wrth ymdrin â throseddau difrifol a bygythiadau sy'n croesi ffiniau heddluoedd neu ffiniau cenedlaethol, ond sy'n effeithio ar gymunedau lleol yn y pen draw. A byddwn yn sicrhau bod yr heddlu yn fwy effeithlon ar lefel heddluoedd unigol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol fel y gellir cynnal plismona lleol rheng flaen. (Pennod 4)
- Byddwn yn grymuso'r Gymdeithas Fawr; gan ddiwygio ein dull o leihau troseddau, gan sicrhau bod pawb yn chwarae ei ran iawn i leihau troseddau mewn Cymdeithas

Fawr - partneriaid cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol ehangach, y sector gwirfoddol a chymunedol ac unigolion eu hunain. (Pennod 5)

1.22 Y flaenoriaeth allweddol i'r heddlu yw lleihau troseddau - gan gadw pobl yn ddiogel rhag y niwed a achosir gan bopeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol i droseddau difrifol a therfysgaeth. Mae ein gweledigaeth ar gyfer diwygio yn seiliedig ar ganlyniadau a gyflawnir drwy gwlwm cryfach rhwng yr heddlu a phobl leol. Rydym am i aelodau'r cyhoedd fod yn ddiogel a theimlo'n ddiogel, lleisio barn ar y ffordd y caiff eu strydoedd eu plismona a gallu dwyn yr heddlu i gyfrif yn lleol, gan gael mwy o gyfle i lywio eu bywydau eu hunain. Rydym am iddynt ymddiried yn yr heddlu a gwybod y bydd yr heddlu yno iddynt pan fydd ei angen arnynt a bod â'r hyder bod gan y system cyfiawnder troseddol foeseg ac uniondeb, ei bod yn gweithio er eu budd hwy a'i bod yn gwneud y defnydd gorau o'u harian.

1.23 Ni fydd y Llywodraeth yn mandadu blaenoriaethau yn ganolog ym mhob ardal leol - rydym yn disgwyl i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau weithio gyda'u cymunedau lleol i bennu'r blaenoriaethau o ran troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd o'r pwys mwyaf yn lleol, ac i'r cyhoedd eu dwyn i gyfrif am berfformiad eu heddlu. Rydym hefyd yn disgwyl i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau gydweithredu'n effeithiol ar faterion sydd o bwys rhanbarthol a chenedlaethol.

#### Asesiad Effaith

1.24 Er mwyn ein helpu i fodloni gofynion rheoleiddio'r Llywodraeth Glymblaid, bwriedir i'r ddogfen hon ysgogi trafodaeth a cheisio barn y rhai y mae'n debygol o effeithio arnynt ac unrhyw bartïon â diddordeb. Caiff unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol a gyflwynir ar ôl yr ymgynghoriad hwn eu hategu gan Asesiad Effaith cadarn wedi'i ddatblygu'n llawn a fydd yn mesur yr effaith ar y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

## Pennod 2: Cynyddu Atebolrwydd Democrataidd

2.1 Rydym am rymuso'r cyhoedd - gan gynyddu atebolrwydd lleol a rhoi llais uniongyrchol i'r cyhoedd ar y ffordd y caiff eu strydoedd eu plismona. Erbyn 2012, bydd y Llywodraeth wedi cyflwyno'r newid mwyaf radical ym maes plismona ers hanner canrif. Bydd y cyhoedd wedi ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau gan eu dwyn i gyfrif am blismona ym mhob rhan o'u heddlu.

2.2 Cyflawnir hyn drwy:

- Ddiddymu Awdurdodau'r Heddlu a chyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi'u hethol yn uniongyrchol yn eu lle - gan sicrhau bod yr heddlu yn ymateb i flaenoriaethau lleol ac yn uniongyrchol atebol i'r cyhoedd am sicrhau cymunedau mwy diogel a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Darparu gwybodaeth er mwyn helpu'r cyhoedd i wybod beth sy'n digwydd yn eu hardal ac i ddwyn yr heddlu i gyfrif gyda gwybodaeth gywir ac amserol am droseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwerth am arian yn eu cymdogaeth;
- Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC) sy'n fwy annibynnol a fydd yn taflu goleuni ar berfformiad lleol a helpu cymunedau i ddwyn eu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'u heddluoedd i gyfrif.

### Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

2.3 Dygir yr heddlu i gyfrif yn lleol ar hyn o bryd gan Awdurdodau'r Heddlu, a sefydlwyd fel rhan o'r diwygiadau mawr i blismona yn 1964, er mwyn sicrhau bod y gwaith llywodraethu (penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddwyn i gyfrif) yn annibynnol ar wleidyddiaeth leol drwy fynnu bod traean o'r aelodau yn Ynadon. Ychwanegwyd at yr annibyniaeth hon ymhellach gan y diwygiadau yn 1994, a oedd yn mynnu bod cyfran o aelodau awdurdod yr heddlu ('aelodau annibynnol') yn dod o gymunedau lleol.

2.4 Mae aelodau unigol awdurdodau'r heddlu wedi gweithio'n galed i ymgysylltu â'u cymunedau, ond nid yw Awdurdodau'r Heddlu yn ddigon gweladwy i'r cyhoedd o hyd. Nid yw'r cyhoedd yn gwybod sut i ddylanwadu ar y ffordd y caiff plismona ei roi ar waith yn eu cymuned, heb sôn am gymryd rhan ynddo. Nid oes ffordd uniongyrchol i'r cyhoedd ddewis y bobl sy'n eu cynrychioli - dim ond 8% o wardiau sy'n ethol cynghorwyr sy'n aelodau o awdurdod yr heddlu. Byddwn yn diddymu Awdurdodau'r Heddlu ac yn rhoi pŵer yn uniongyrchol yn nwylo'r cyhoedd. Am y tro cyntaf erioed, bydd y cyhoedd yn gallu pleidleisio'n uniongyrchol am unigolyn i gynrychioli anghenion plismona eu cymuned.

2.5 Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn gynrychiolwyr pwerus o'r cyhoedd gan arwain y frwydr yn erbyn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddant yn sicrhau:

- Y gall y cyhoedd ddwyn heddluoedd ac uwch swyddogion i gyfrif yn well;
- Bod mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes plismona o ran pennu blaenoriaethau a dinasyddiaeth weithgar;
- Bod mwy o gyfrifoldeb gan y cyhoedd - yn hytrach na Whitehall - am berfformiad yr heddlu; a,
- Bod gan y cyhoedd rywun 'ar eu hochr hwy' yn y frwydr yn erbyn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.6 Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn sicrhau y dygir yr heddlu i gyfrif yn ddemocrataidd, nid yn fiwrocraataidd gan Whitehall. Dyma ran o'r fargen i'r heddlu: dileu microreoli gan Lywodraeth ganolog mewn plismona lleol, yn gyfnewid am lawer mwy o ymatebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgysylltu â hwy.

2.7 Mae'r diwygiadau hyn yn rhy enbyd i gael Comisiwn Brenhinol hir ar gynyddu atebolrwydd ym maes plismona. Nododd cytundeb y glymblaid ein bwriad i gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Rydym yn awyddus i glywed eich barn ar y ffordd fwyaf effeithiol o wneud i hyn weithio. Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth yn ystod yr hydref a bydd y cyhoedd yn gallu pleidleisio dros eu Comisiynwyr am y tro cyntaf ym mis Mai 2012.

#### Cwmpas a Chylch Gwaith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

2.8 Rydym yn benderfynol o ymgorffori'r diwygio hwn yn ffiniau presennol yr heddluoedd y mae pobl eisoes yn eu deall. Caiff un Comisiynydd ei ethol yn uniongyrchol ar lefel pob heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac eithrio'r Heddlu Metropolitanaid (lle y ceir atebolrwydd lleol cryf eisoes) a Heddlu Dinas Llundain. Ni fydd Comisiynwyr gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil na Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

2.9 Bydd y Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ei holl gyfrifoldebau presennol. Bydd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau bum rôl allweddol fel rhan o'u cenhadaeth i ymladd troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol:

- Cynrychioli pawb sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau yn ardal eu heddlu ac ymgysylltu â hwy a nodi eu hanghenion o ran plismona;
- Pennu blaenoriaethau sy'n diwallu'r anghenion hynny drwy gytuno ar gynllun strategol lleol i'r heddlu;
- Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni'r blaenoriaethau hyn mewn ffordd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, a chwarae rhan mewn materion ehangach o ran diogelwch cymunedol;
- Pennu cyllideb yr heddlu a phennu'r praesept. Bwriadwn gyflwyno refferenda ar gyfer codi praesept. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru (yng Nghymru) a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (yn Lloegr) yn rhoi rhagor o fanylion; a,
- Penodi'r Prif Gwnstabl, a chael gwared ohono lle y bo angen.

2.10 Bydd angen i Gomisiynwyr benodi ac arwain tîm i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau pwysig. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu pennu'r trefniadau cymorth hyn yn fanwl. Comisiynwyr unigol fydd yn gallu penderfynu sut i sicrhau bod ganddynt dîm cymorth effeithiol â'r arbenigedd a'r wybodaeth gywir am yr ardal - er y bydd y Llywodraeth, er enghraifft, yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gael ei benodi sydd â'r sgiliau ariannol priodol, ac yn pennu mesurau diogelu proses er mwyn sicrhau priodoldeb wrth wneud penodiadau. Bydd angen i Gomisiynwyr ddangos gwerth am arian i etholwyr ar unrhyw arian a gaiff ei wario ar orbenion yn hytrach nag ar blismona rheng flaen.

2.11 Bydd Llywodraeth y DU yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod y fframwaith y mae'r Comisiynwyr sydd wedi'u hethol yn uniongyrchol ar gyfer y pedwar heddlu yng Nghymru yn gweithio oddi mewn iddo yn adlewyrchu ac yn parchu cyfrifoldebau datganoledig.

### *Etholiadau*

2.12 Mae'r Llywodraeth am i ddarpar Gomisiynwyr ddod o amrywiaeth eang o gefndiroedd, gan gynnwys cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr annibynnol. Bydd gan Gomisiynwyr dymor penodol o bedair blynedd mewn swydd a dim ond am ddau dymor y byddant yn gallu cael eu penodi. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cymhwyso'r fframwaith presennol ar gyfer ymddygiad mewn llywodraeth leol ac etholiadau Seneddol gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd cydnabyddedig ar gyfer ymgeisio am swydd gyhoeddus, wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau cyntaf ym mis Mai 2012. Rydym yn ystyried y system bleidleisio briodol, ac yn credu mai system bleidleisio flaenoriaethol yw'r opsiwn cywir. Byddwn yn cydweithio'n agos â chynrychiolwyr llywodraeth leol a'r Comisiwn Etholiadol i sicrhau y caiff yr etholiadau hyn eu cydgysylltu'n effeithiol a'u bod yn rhoi gwerth da am arian.

### *Rôl y Prif Gwnstabl*

2.13 Mae annibyniaeth weithredol yr heddlu yn un o egwyddorion sylfaenol plismona ym Mhrydain. Byddwn yn diogelu'r annibyniaeth weithredol honno yn llwyr. Ni fydd rhoi i Brif Gwnstablaiad linell atebolrwydd glir i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau sydd wedi'u hethol yn annibynnol yn amharu ar eu hannibyniaeth weithredol na'u dyletswydd i weithredu heb ofn na ffafriaeth. Mewn gwirionedd, bydd gan Brif Gwnstablaiad fwy o ryddid proffesiynol i wneud penderfyniadau gweithredol i gyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd iddynt gan eu cymuned leol - drwy eu Gomisiynydd. Bydd hyn yn cynnwys gallu penodi pob aelod o'u huwch dîm rheoli.

### Cyfrifoldebau penodol Comisiynwyr

2.14 Nid ydym am lyffetheirio Comisiynwyr â llawer o ganllawiau ac amodau ar eu rôl. Y cyhoedd fydd yn penderfynu ar eu ffocws lleol yn bennaf. Nodir isod rai o'r cyfrifoldebau allweddol yr ydym yn bwriadu i bob Comisiynydd eu cyflawni a byddem yn croesawu eich barn ar y rhain.

### *Plismona Lleol*

2.15 Bydd gan Gomisiynwyr gyfrifoldeb clir am ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif i sicrhau bod yr heddlu ar gael i gymunedau ac yn ymatebol iddynt. Mae gwaith timau plismona yn y gymdogaeth i nodi a chyflawni'r blaenoriaethau mwyaf lleol ym mhob cymuned yn elfen sylfaenol o blismona lleol, ond mae plismona lleol mynd y tu hwnt i'r gwaith hwnnw; y gwasanaeth llawn o ymateb, ymchwilio a datrys problemau ym mhob cymuned ydyw hefyd. Mae plismona lleol effeithiol sy'n rhoi dilysrwydd a hyder ei gymunedau i'r heddlu yn hanfodol er mwyn ategu cenhadaeth ehangach yr heddlu o ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed a bygythiadau difrifol.

2.16 Mae angen i'r cyhoedd weld eu heddlu ar eu strydoedd gymaint ag y mae angen iddynt wybod yr ymdrinnir â'u galwad frys yn gyflym. Nid oes un ateb yn addas i bob sefyllfa. Mae'n rhaid i blismona amrywio yn ôl nodweddion cymdogaethau gwahanol. Ond mae angen sicrhau bod cysylltiad agos rhwng timau yn y gymdogaeth a rhannau eraill o blismona lleol a swyddogaethau eraill yr heddlu, eu bod yn rhan o bartneriaethau cymdogaethau a threfniadau rheoli cymdogaethau a'u bod yn ymgysylltu â'r gymuned.

### *Troseddau difrifol, gwasanaethau diogelu*

2.17 Nid yw troseddau na throseddwy'r wedi'u cyfyngu o fewn ffiniau heddluoedd. Bydd Comisiynwyr yn gyfrifol am yr holl weithgarwch plismona y mae eu Prif Gwnstabl a'u heddlu yn ymgymryd ag ef a bydd angen iddynt edrych y tu hwnt i ffiniau eu heddlu eu hunain. Bydd angen iddynt gydbwysu blaenoriaethau a phwysau lleol â'r gweithredu trawsffiniol, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, sydd ei angen i sicrhau effeithlonrwydd

gweithredol. Mae Pennod 4 yn nodi ein dull o ymdrin â chydweithredu trawsffiniol. Bydd dyletswydd gref ar Gomisiynwyr i gydweithredu, er budd gwerth am arian ac er mwyn mynd i'r afael â throseddau trawsffiniol, cenedlaethol a rhyngwladol (megis ymladd troseddau cyfundrefnol difrifol a therfysgaeth).

#### *Diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ehangach*

2.18 Ni all plismona fod yn effeithiol os yw'n gweithio ar ei ben ei hun. Mae Pennod 5 yn nodi sut y mae angen cyflawni plismona mewn partneriaeth â'r cyhoedd, ond hefyd gydag asiantaethau allweddol yn lleol ac ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Bydd cydweithio effeithiol â phartneriaid yn allweddol i lwyddiant Comisiynwyr. Mae strategaethau hirdymor sydd â'r nod o annog troseddwyd i beidio ag aildroseddu ac atal eraill rhag dechrau ar fywyd o droseddu yn dibynnu ar waith partneriaid eraill, gan ddarparu mynediad i gyfiawnder, dedfrydu effeithiol, cosbi ac adsefydlu troseddwyd, addysg dda a gweithgareddau i bobl ifanc, triniaeth cyffuriau ac alcohol, a gweithredu gan swyddogion y cyngor lleol a swyddogion tai lleol.

2.19 Bydd Comisiynwyr yn gallu chwarae rhan fawr mewn materion ehangach o ran diogelwch cymunedol. Rydym yn ystyried creu pwerau galluogi i ddwyn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ynghyd ar lefel heddlu i ymdrin â materion o ran diogelwch cymunedol yn yr heddlu cyfan a rhoi rôl i Gomisiynwyr o ran comisiynu gwaith diogelwch cymunedol.

2.20 Bydd gallu'r Comisiynydd a gweddill y system cyfiawnder troseddol i gydweithio'n effeithiol yn effeithio ar y gallu i weinyddu cyfiawnder yn gyflym ac i ostwng aildroseddu tra'n sicrhau gwerth am arian i'r system cyfiawnder troseddol gyfan. Mae'r Llywodraeth yn gweld rôl bosibl yn y dyfodol i Gomisiynwyr mewn perthynas â'r system cyfiawnder troseddol ehangach wrth i ddiwygiadau pellach ddatblygu, ond ar hyn o bryd byddwn yn ceisio gosod dyletswydd gyfatebol ar Gomisiynwyr a gwasanaethau cyfiawnder troseddol eraill i gydweithredu â'i gilydd, ond mewn ffordd nad yw'n peryglu annibyniaeth angenrheidiol partneriaid. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd penderfyniadau pob partner yn y system cyfiawnder troseddol o ran blaenoriaethau a buddsoddi yn ystyried y goblygiadau i gydweithwyr. Byddwn hefyd yn ystyried y ffordd orau y gallant weithio gyda Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

#### *Gwerth am arian*

2.21 Bydd Comisiynwyr yn dwyn eu heddlu i gyfrif am yr arian y mae'n ei wario ac yn sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian i'r cyhoedd. Ymhlith cyfrifoldebau allweddol y Comisiynydd fydd:

- Cyflwyno adroddiadau tryloyw ac agored i'r cyhoedd ar y ffordd y caiff cyllid ei ddefnyddio;
- Dwyn heddluoedd i gyfrif am eu defnydd lleol o adnoddau, gan gynnwys y defnydd o unrhyw drefniadau cenedlaethol ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau a chan wneud defnydd da o wasanaethau a ddarperir yn genedlaethol; a
- Dwyn heddluoedd i gyfrif am eu cyfraniad i wasanaethau a ddarperir yn gydweithredol yn eu rhanbarth a'u defnydd ohonynt.

#### *Amrywiaeth*

2.22 Mae angen gweithlu amrywiol er mwyn ymgysylltu â'r gymuned. Bydd Comisiynwyr yn gyfrifol am ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am sicrhau bod ei heddlu yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Mae hyn yn bwysig er mwyn i gymunedau chwarae mwy o ran mewn plismona, gan sicrhau y gall yr heddlu ddeall anghenion cymunedau lleol a meithrin ymddiriedaeth a chwalu rhwystrau diwylliannol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r cyhoedd roi gwybod am droseddau a

helpu i'w datrys. Mae mwy na 25% o swyddogion yr heddlu yn ferched bellach a 4.4% yw cynrychiolaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig bellach, cynnydd o gymharu â 2% yn 1999. Mae'r ffigurau hyn yn uwch ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, sef 44% ac 11.5%.<sup>6</sup> Mae'n rhaid i ni sicrhau y gwneir llawer mwy o gynnydd o ran y newidiadau hyn - yng ngwasanaeth cyfan yr heddlu yn ogystal â phlisma lleol.

### *Llywodraeth Ddatganoledig*

2.23 Mae cyfrifoldeb am lywodraeth leol wedi'i ddatganoli yng Nghymru a byddwn yn cydweithio'n agos â phartneriaid yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, i sicrhau bod rhwystrau a gwrthbwysau sy'n gwneud cysylltiadau effeithiol â'r sefyllfa wahanol o ran llywodraeth leol yng Nghymru. Rydym am sicrhau y caiff llywodraeth leol a Chomisiynwyr eu grymuso i wneud y penderfyniadau sy'n gweithio orau i'w hardal leol hwy.

### *Llundain*

2.24 Yn Llundain, caiff Awdurdod yr Heddlu Metropolitaidd ei ddiddymu a bydd Awdurdod Llundain Fwyaf yn cyflawni'r rôl graffu fel y trafodir isod. Rydym yn trafod â Maer Llundain a Chomisiynydd yr Heddlu Metropolitaidd pa newidiadau pellach sydd eu hangen yn Llundain, os o gwbl, i ategu'r diwygiadau hyn. Yn benodol, mae angen i ni sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn adlewyrchu cyfrifoldebau plisma cenedlaethol ehangach Comisiynydd yr Heddlu Metropolitaidd.

### Rhwystrau a Gwrthbwysau

2.25 Y cyhoedd wrth y blwch pleidleisio fydd yn barnu llwyddiant neu fethiant pob Comisiynydd yn y pen draw, ynghyd â pha mor dda y mae'n gwasanaethu ei gymuned. Ond mae angen i'r cyhoedd feddu ar y wybodaeth gywir i farnu perfformiad y Comisiynydd ac mae angen iddynt wybod bod modd dwyn y Comisiynydd i gyfrif drwy ddefnyddio dulliau craffu effeithiol a rhwystrau a gwrthbwysau priodol, yn enwedig yn lleol.

### *Llywodraeth leol a chraffu annibynnol*

2.26 Wrth wraidd ein cynigion ar gyfer rhwystrau a gwrthbwysau priodol i bŵer Comisiynwyr newydd yr Heddlu a Throseddau, ceir cynnig i sefydlu panel newydd, sef Panel yr Heddlu a Throseddau. Bydd y panel hwn yn sicrhau bod rôl drosolwg gadarn ar lefel yr heddlu ac y caiff penderfyniadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau eu profi ar ran y cyhoedd yn rheolaidd. Byddwn yn creu Paneli'r Heddlu a Throseddau yn ardal pob heddlu, a fydd yn cynnwys cynghorwyr sydd wedi'u hethol yn lleol o wardiau cyfansoddol ac aelodau annibynnol a lleyg a fydd yn cyflwyno sgiliau, profiad ac amrywiaeth ychwanegol i'r trafodaethau. Rydym wedi'i nodi'n glir bod y rhain yn ymwneud â'r Comisiynydd ac nid â'r heddlu ei hun.

2.27 Bydd y Panel hwn yn gallu cynghori'r Comisiynydd ar ei gynlluniau plisma a'i gyllideb arfaethedig ac yn ystyried cynnydd ar ddiwedd pob blwyddyn a amlinellir mewn adroddiad 'cyflwr yr heddlu'. Os bydd y Panel yn gwrthwynebu cynlluniau neu gyllideb y Comisiynydd, bydd yn rhydd i gyhoeddi ei bryderon, er budd tryloywder, neu mewn achosion o gamymddwyn, gofyn i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) ymchwilio i'r Comisiynydd. Bydd yn gallu gwysio'r Comisiynydd i wrandawiaid cyhoeddus, cymryd tystiolaeth gan bobl eraill am waith y Comisiynydd, a gweld y papurau a anfonir at y Comisiynydd fel mater o drefn ac eithrio pan fyddant yn

<sup>6</sup> R. Mulchandani a J. Sigurdsson Police Service Strength England and Wales, 31ain Mawrth 2009, Y Swyddfa Gartref (2009) <http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs09/hosb1309.pdf>

weithredol sensitif. Bydd yn cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer swydd y Prif Gwnstabl ac yn gallu cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer penodiadau eraill a wneir gan y Comisiynydd i'w staff, ond heb y pŵer i roi fetu ar hynny. Fodd bynnag, bydd ganddo'r pŵer i sbarduno refferendwm ar y praesept plismona a argymhellir gan y Comisiynydd.

#### *Craffu mewn cyfarfodydd rhawd cymdogaethau*

2.28 Cymdogaethau yw'r lefel allweddol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau, ynghyd â sylfaen Cymdeithas Fawr. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn sicrhau mwy o atebolrwydd lleol nag erioed o'r blaen, ond mae angen i gymunedau gael ffordd o ddwyn yr heddlu i gyfrif ar lefel cymdogaeth. Fel y nodwyd yng nghytundeb y glymblaid, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i heddluoedd gynnal 'cyfarfodydd rhawd' rheolaidd fel y gall trigolion eu dwyn i gyfrif.

2.29 Mae'r term "cyfarfodydd rhawd" yn creu delwedd o'r un nifer fach o bobl yn eistedd o amgylch mewn neuadd leol. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau am sicrhau bod ymgysylltu ar lefel cymdogaeth yn gynhwysol ac yn cynrychioli'r gymuned gyfan. Felly, byddant yn gyfrifol am ei gwneud yn ofynnol i dimau plismona yn y gymdogaeth eu heddluoedd gynnal cyfarfodydd rhawd rheolaidd ar adegau ac mewn lleoedd a hysbysebwr yn eang, ac iddynt hefyd fynd ati mewn ffordd arloesol i fanteisio i'r eithaf ar y cyfarfodydd hyn a ffyrdd eraill o ymgysylltu â'r cyhoedd cyfan mewn cymunedau amrywiol. Er enghraifft, caiff timau lleol yr heddlu eu hannog eisoes i gyfarfod â thrigolion mewn archfarchnadoedd, cartrefi hen bobl ac ysgolion - neu ar-lein, drwy gyfarfodydd rhawd rhithwir, Facebook neu Twitter. Ac maent yn cysylltu â gwasanaethau eraill neu bobl amlwg mewn grwpiau gwirfoddol neu gymunedol dibynadwy megis rheolwyr cymdogaethau - sydd hefyd yn ymgysylltu â'r cyhoedd, er mwyn siarad â chymaint o bobl â phosibl.

2.30 Mae angen i weithwyr proffesiynol rheng flaen fod yn weladwy ac ar gael ar adegau ac mewn lleoedd lle y gall eu cymunedau leisio eu barn ac asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar eu blaenoriaethau, a bydd Comisiynwyr yn rhoi hwb pwerus newydd a llais cyhoeddus er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

2.31 Bydd cynghorwyr lleol, a gaiff eu hethol gan bob cymdogaeth i gynrychioli ei buddiannau, yn cymryd llawer o ddiddordeb mewn gwneud yn siŵr bod Comisiynwyr yn sicrhau plismona effeithiol ar gyfer pob cymdogaeth yn eu hardal.

#### *Tryloywder*

2.32 Er mwyn i atebolrwydd democrataidd fod yn effeithiol, mae angen gwybodaeth dryloyw annibynnol ar y cyhoedd am berfformiad eu Comisiynydd. Pan fydd y cyhoedd yn mynd i'r blwch pleidleisio i bleidleisio dros eu Comisiynydd, rydym am sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ar gael, fel y gallant wneud eu penderfyniad yn seiliedig ar ffeithiau yn hytrach nag anecdotau a sïon. Ac rydym am sicrhau bod cymunedau yn gallu ymgysylltu'n briodol â'u Comisiynydd yn ystod eu cyfnodau mewn swydd, felly bydd cam ymgynghori ar gyfer cynlluniau plismona lleol a chaiff yr ymatebion eu cyhoeddi.

2.33 Mae'n rhaid i'r cyhoedd allu gweld perfformiad eu heddlu o ran troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r ffordd y mae'n gwario arian y cyhoedd. Mae'n rhaid iddynt allu cymharu'r perfformiad hwn â pherfformiad yr heddlu yn y gorffennol a'i berfformiad mewn perthynas â chymdogaethau a heddluoedd eraill.



2.34 O fis Ionawr 2011, byddwn yn sicrhau y caiff data ar droseddau ei gyhoeddi ar lefel sy'n galluogi'r cyhoedd i weld yr hyn sy'n digwydd ar eu strydoedd ac yn eu cymdogaethau. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i heddluoedd ryddhau'r data hwn mewn fformat agored a safonol a fyddai'n galluogi trydydd partïon i greu mapiau troseddau a chymwysiadau eraill sy'n helpu cymunedau i ymgysylltu a rhyngweithio â'u heddlu lleol mewn ffordd ystyrlon. Byddwn yn adeiladu ar hyn dros amser er mwyn sicrhau bod cymunedau yn gallu cael y darlun mwyaf cyfredol a chywir o droseddau yn eu cymdogaethau bob amser. Byddwn yn adeiladu ar hyn dros y flwyddyn nesaf drwy sicrhau bod yr heddlu mewn sefyllfa i gyhoeddi data'n fwy aml na hyn, er mwyn i'r DU gydymffurfio ag arfer gorau gwledydd eraill - mae rhai yn cyhoeddi data bob wythnos.

2.35 Ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, rydym yn gwneud newidiadau er mwyn sicrhau bod y Llywodraeth, ac yn enwedig gwariant cyhoeddus, yn dryloyw i'r cyhoedd, cymunedau a busnesau. Fel rhan o hyn, byddwn yn sicrhau bod heddluoedd yn darparu gwybodaeth am faint o arian trethdalwyr y maent yn ei gael a'r ffordd y maent yn ei ddefnyddio.

2.36 Byddwn hefyd yn sicrhau bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau - a'u timau cymorth - yn rhan o drefniadau tryloywder tebyg. Byddant yn destun ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a byddant yn cyhoeddi pob papur a phob hysbysiad o gyfarfod yn ddiodyn, ynghyd â phob taliad dros £500 y maent yn ei wneud (yn unol â threfniadau tryloywder ehangach ar gyfer llywodraeth leol). Byddant hefyd yn cyhoeddi organogramau a chyflogi penodeion eu timau bach ac yn sefydlu cod ymarfer (gan gynnwys rhoddion a lletygarwch). Bydd angen i Gynlluniau Plismona gydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol.

2.37 Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi amcangyfrifon o gost yr etholiadau ac agweddau eraill ar bolisi'r Comisiynwyr maes o law.

2.38 Bydd y Llywodraeth yn gwneud cynigion ar gyfer cyflog Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn ddiweddarach eleni. Bydd y rhain yn adlewyrchu ein ffocws ar werth am arian a thryloywder, ac yn ystyried amrywiadau o ran maint a chyfrifoldebau heddluoedd.

#### *Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi*

2.39 Bydd Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn eiriolwr cryfach er budd y cyhoedd, yn annibynnol ar y Llywodraeth a gwasanaeth yr heddlu. Byddwn yn sicrhau bod gan HMIC y pwerau i'w galluogi i ymgymryd â'r rôl hollbwysig hon a byddwn yn meithrin ymddiriedaeth a magu hyder y cyhoedd drwy roi gwybodaeth wrthrychol a chadarn am heddluoedd iddynt.

2.40 Rôl HMIC fydd gweithio i'r cyhoedd er mwyn taflu goleuni ar ganlyniadau plismona a gwerth am arian yn lleol a'u helpu i lunio barn hyddysg ar berfformiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'u heddluoedd mewn perthynas â blaenoriaethau lleol a rhwymedigaethau cenedlaethol. Bydd yn gwneud hyn drwy arolygiadau llai manwl a thrwy lunio gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a chyhoeddi Proffiliau Gwerth am Arian sy'n rhoi gwybodaeth gymharol am gostau a chanlyniadau. Ni fydd Arolygiaeth fwy cadarn yn golygu dychwelyd at reoleiddio diangen a beichus. Bydd angen i unrhyw weithgarwch arolygu fod yn gymesur ac ychwanegu gwerth.

#### *Rhwystrau a gwrthbwysau cenedlaethol*

2.41 Ceir rhai materion sy'n peri risg ddigonol neu sydd o bwys cenedlaethol sy'n cyfiawnhau goruchwylïaeth a gofynion cenedlaethol, ac mae'r Ysgrifennydd Cartref yn bwriadu cadw pwerau er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r rhain yn effeithiol. Ymhliith y rhain

bydd pwerau i sicrhau y caiff digwyddiadau o bwys cenedlaethol megis y Gemau Olympaidd eu plismona'n ddigonol ac y gall gwasanaeth yr heddlu ymateb yn briodol i fygythiadau i ddiogelwch cenedlaethol neu argyfwng. Byddant hefyd yn cynnwys pwerau i sicrhau y defnyddir ein galluoedd a'n strwythurau plismona cenedlaethol yn effeithiol i ymateb yn gymesur i fygythiadau rhanbarthol a chenedlaethol yn y dyfodol (a drafodir ym Mhennod 4).

#### *Cwynion ac ailalw*

2.42 Bydd gan Baneli'r Heddlu a Throseddau ac IPCC ran hollbwysig i'w chwarae i ymdrin â chwynion ffurfiol yn erbyn Comisiynwyr. Os ceir honiadau o gamymddwyn, rydym yn rhagweld y bydd Paneli'r Heddlu a Throseddau yn cael cwynion ac yn gallu eu cyfeirio at IPCC er mwyn iddo ymchwilio iddynt.

2.43 Byddwn hefyd yn cyflwyno'r pŵer i ailalw mewn perthynas â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Efallai y bydd gan Baneli'r Heddlu a Throseddau a'r cyhoedd ran i'w chwarae i sbarduno ailalw Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, ond dim ond pan fydd IPCC wedi dyfarnu bod camymddwyn difrifol wedi bod y defnyddir y pŵer hwn.

2.44 Os bydd Comisiynydd yn ymddiswyddo neu os na all wneud y swydd, bydd Paneli'r Heddlu a Throseddau yn gallu penodi Comisiynydd interim nes y gellir trefnu isetholiad neu nes y gall y Comisiynydd ddychwelyd i'r swydd.

#### **Cwestiynau'r Ymgynghoriad:**

1. A fydd y rhwystrau a'r gwrthbwysau arfaethedig a nodir yn y Bennod hon yn darparu mesurau diogelu effeithiol ond anfiwrocraidd ar gyfer gwaith y Comisiynwyr, neu a oes mesurau diogelu eraill y dylid eu hystyried?

2. Beth y gellid ei wneud i sicrhau bod darpar Gomisiynwyr yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd, gan gynnwys o safbwyntiau pleidiau gwleidyddol ac annibynnol?

3. Beth yw'r ffordd orau y dylai'r Comisiynwyr weithio gyda'r partneriaid cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol ehangach sy'n darparu'r amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cadw cymunedau yn ddiogel?

4. Beth yw'r ffordd orau y gallai'r Comisiynwyr ymgysylltu â'u cymunedau - unigolion, busnesau a sefydliadau gwirfoddol - ar lefel cymdogaeth?

5. Sut y gall y Comisiynwyr a gwybodaeth leol fwy tryloyw lywio gwelliannau yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig a lleiaf diogel yn eu hardaloedd.

6. Pa wybodaeth a fyddai'n helpu'r cyhoedd i lunio barn ar eu heddlu a'u Comisiynydd, gan gynnwys pa mor fanwl y dylai fod a pha mor hawdd y dylai fod i gymharu ag ardaloedd eraill?

## Pennod 3: Dileu Atebolrwydd Biwrocraidd

3.1 Dylai swyddogion yr heddlu ymladd troseddau, yn hytrach na llenwi ffurflenni. Rydym wedi nodi sut y bwriadwn gyflwyno atebolrwydd democrataidd yn lle atebolrwydd biwrocraidd. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn elfen hollbwysig o hyn ond mae angen newidiadau eraill hefyd. Mae angen i ni drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddweud wrth yr heddlu sut y dylai wneud ei waith o Whitehall i Brif Gwnstabiaid, eu staff a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

3.2 Mae'r ail newid radical hwn mewn pŵer eisoes yn mynd rhagddo - o Whitehall i'r heddlu. Bydd llai o fiwrocraetiaeth ganolog yn gysylltiedig â swyddogion rheng flaen a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, fel y gallant fynd ati i wneud eu gwaith o gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Ar hyn o bryd, yn ôl HMIC, dim ond 11% o'r heddlu sy'n weladwy ac ar gael i'r cyhoedd ar unrhyw adeg.<sup>7</sup> Mae angen i ni sicrhau bod llawer mwy ohonynt ar y strydoedd, mewn cymunedau, yn weladwy ac ar gael. Ni fydd swyddogion yn llenwi ffurflenni diangen mwyach, o ffurflenni 'stopio' i geisiadau am ddata gan Lywodraeth ganolog. Rydym am i swyddogion ganolbwyntio ar waith yr heddlu nid gwaith papur na phrosesau.

3.3 Cyflawnir hyn drwy:

- Roi'r gorau i ymyrraeth Whitehall mewn plismona - gan ryddhau'r heddlu oddi wrth reolaeth ganolog drwy ddileu targedau'r Llywodraeth a'r prosesau rheoli perfformiad canolog gormodol a thrwy adolygu'r baich data ar heddluoedd - ond drwy sicrhau bod data ar gael i bobl leol o hyd;
- Lleihau biwrocraetiaeth a hyrwyddo barn - gan ategu cyfrifoldeb proffesiynol a lleihau biwrocraetiaeth;
- Sicrhau bod arweinwyr y gwasanaeth yn cymryd cyfrifoldeb am leihau biwrocraetiaeth i'r eithaf ar lefel yr heddlu.

### Lleihau'r fiwrocraetiaeth a osodir gan Whitehall ar heddluoedd

3.4 Bydd rôl gan y Llywodraeth o hyd i bennu'r cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer yr heddlu, ond ni fydd rôl ganddi i ddweud wrth yr heddlu sut i wneud ei waith - cyfrifoldeb yr heddlu fydd hynny; neu i'w ddwyn i gyfrif am ei berfformiad - cyfrifoldeb yr heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau fydd hynny.

3.5 Rydym eisoes wedi dileu'r targed olaf a bennwyd gan y Llywodraeth i heddluoedd wella hyder y cyhoeddus. O hyn ymlaen, cymunedau fydd yn penderfynu ar berfformiad eu heddlu. Rydym hefyd wedi dileu'r Addewid Plismona a osodwyd gan y Llywodraeth, a ystyrid yn ddeg targed cudd yn aml.

3.6 Bydd y wybodaeth leol gywir ac amserol gynyddol a roddir i'r cyhoedd yn hollbwysig er mwyn eu grymuso i gyflawni newid gwirioneddol yn eu cymunedau. Nid ydym am gael system yn y pen draw lle y mae heddluoedd yn cyhoeddi cyn lleied o ddata â phosibl. Bydd angen i gomisiynwyr arwain y ffordd i sicrhau bod a wnelo hyn â dangos y ffigurau gwirioneddol i'r cyhoedd; ffigurau am yr hyn sydd o bwys yn lleol ym marn y cyhoedd, nid yr hyn sy'n bwysig ym marn yr heddlu. Bydd HMIC yn ystyried sut i addasu ei dull gweithredu i daflu goleuni ar berfformiad yr heddlu ar ran y cyhoedd.

---

<sup>7</sup> Valuing the Police, HMIC, 2010,

[http://www.hmic.gov.uk/SiteCollectionDocuments/Value%20for%20Money/VTP\\_NFS\\_20100720.pdf](http://www.hmic.gov.uk/SiteCollectionDocuments/Value%20for%20Money/VTP_NFS_20100720.pdf)

3.7 Mabwysiadodd y Llywodraeth flaenorol ddull canoliaethol o'r brig i lawr o ymdrin â'r heddlu, ac o ymdrin â phartneriaid ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol a maes diogelwch cymunedol. Mae partneriaethau wedi canolbwyntio ar gyflawni prosesau a thargedau rhagnodol a bennwyd gan Whitehall sydd wedi'u tynnu mewn cyfeiriadau gwahanol a'u hatal rhag canolbwyntio ar yr hyn sydd o bwys yn lleol. Mae Pennod 5 yn nodi'r ffordd y byddwn yn dileu rhywfaint o hyn fel y gellir cyflawni canlyniadau cyhoeddus yn well.

3.8 Dros y blynyddoedd, mae faint o ddata y mae Llywodraeth ganolog wedi'i chasglu i asesu'r heddlu wedi cynyddu i'r fath raddau fel ei fod bellach yn rhwystro plismona synnwyr cyffredin. Mae'n bwysig cofnodi data ar droseddau mewn ffordd gyson ledled y wlad fel y gall y cyhoedd ymddiried yn yr ystadegau a chymharu perfformiad heddluoedd gwahanol. Fodd bynnag, nid oes angen cyflwyno adroddiadau canolog ar yr holl ddata. Byddwn yn adolygu'r defnydd o ddata ar gyfer rheoli perfformiad, asesu'r heddlu a gwybodaeth gyhoeddus er mwyn lleihau biwrocratiaeth a dileu targedau cudd.

3.9 Mae angen i'r cyhoedd wybod, pan fyddant yn hysbysu'r heddlu o droseddau, y cânt eu cymryd o ddifrif a bod unrhyw wybodaeth a lunnir gan yr heddlu, y Comisiynydd neu unrhyw un arall yn ddibynadwy. Bydd angen gwybodaeth wrthrychol safonol am heddluoedd gan fod y cyhoedd yn gwerthfawrogi gwybodaeth y gellir ei chymharu, gan gynnwys fel y nodwyd yn gynharach mewn perthynas â data troseddau lleol. Rydym hefyd am ystyried sut y gellir sicrhau bod gwybodaeth am gyfiawnder yn fwy tryloyw fel y gall y cyhoedd ddwyn asiantaethau cyfiawnder ehangach i gyfrif.

3.10 Mae angen cydbwysu hyn â'r angen i leihau trefniadau cofnodi a chyflwyno adroddiadau gormodol sy'n golygu na all swyddogion fod ar y rheng flaen. Byddwn yn ailystyried y Safon Cofnodi Troseddau Genedlaethol a'r ffordd y caiff troseddau eu cofnodi.

#### Lleihau biwrocratiaeth a hyrwyddo barn broffesiynol

3.11 Treulir gormod o amser yr heddlu yn llenwi ffurflenni a dilyn gweithdrefnau diangen sydd wedi deillio o ddiwylliant sy'n rhy amharod i gymryd risg. Rydym am i swyddogion fod ar y strydoedd yn ymladd troseddau, ond dengys gwaith dadansoddi i'r amser a gafodd ei dreulio yn gwneud gwaith papur gynyddu i 22% yn 2007/08 a bod dim cyswllt rhwng bron hanner yr amser hwnnw a digwyddiadau y rhoddyd gwybod amdanynt. Rydym am adfer barn a disgresiwn proffesiynol i'r heddlu. Caiff yr heddlu lu o ganllawiau mewn blwyddyn. Pa un ai canllawiau i swyddogion ydynt ar sut i wisgo neu 92 o dudalennau ar sut i reidio beic - mae'n rhaid lleihau hyn. Yn aml, mae heddluoedd lleol yn meddwl am ffyrdd gwell o wneud pethau ond cânt eu hatal rhag gwneud newidiadau oherwydd canllawiau llym. Byddwn yn mynd ati'n ddiostur i nodi'r prosesau hynny sy'n llafurus i swyddogion yr heddlu a staff cymorth, a hynny'n ddiangen. Mae angen i'r heddlu weithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ddiwygio'r prosesau hynny yn y system sy'n creu biwrocratiaeth i'r heddlu ac fel arall.

3.12 Erbyn mis Medi, bydd HMIC wedi cwblhau ei dadansoddiad o'r ffordd y gellir gwella arferion a phrosesau gwaith ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol er mwyn lleihau dyblygu a biwrocratiaeth. Byddwn yn edrych ar ganfyddiadau'r dadansoddiad i nodi mesurau penodol er mwyn gwella effeithlonrwydd y prosesau sydd eu hangen i sicrhau bod achosion yn ymuno â'r system ac yn symud drwyddi a chyflwyno canlyniadau gwell i'r cyhoedd.

3.13 Erbyn diwedd eleni, byddwn yn dileu'r gofyniad cenedlaethol ar gyfer y ffurflen 'stopio' yn gyfan gwbl ac yn lleihau baich y gweithdrefnau stopio a chwilio yn sylweddol. Byddwn hefyd yn manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg sydd ar gael i leihau'r gwaith papur ym maes plismona ymhellach, fel mai dim ond tri darn o wybodaeth y bydd angen i swyddog eu cofnodi â llaw ar gofnod stopio a chwilio, er enghraifft.

3.14 Byddwn yn edrych yn fanwl ar brosesau o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio a Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i leihau'r gwaith papur i swyddogion yr heddlu, gan sicrhau cydbwysedd rhwng pwysigrwydd lleihau biwrocratiaeth ddiangen a'r angen am fesurau diogelu priodol i ddiogelu'r cyhoedd rhag y defnydd amhriodol o rai o'r pwerau hyn.

3.15 Byddwn yn trosglwyddo'r broses gwneud penderfyniadau yn ôl i swyddogion yr heddlu, a dyna pam rydym yn cymryd camau i drosglwyddo penderfyniadau cyhuddo yn ôl i swyddogion am amrywiaeth ehangach o droseddau diannod a byddwn yn cyflwyno hyn o fis Tachwedd 2010.

3.16 Byddwn hefyd yn dileu rhwystrau i ddull synnwyr cyffredin o blismona. Mae hyn yn cynnwys diwygio'r arferion iechyd a diogelwch hynny sy'n sail i ddiwylliant sy'n amharod i gymryd risg a all atal swyddogion yr heddlu rhag ymyrryd a diogelu'r cyhoedd weithiau. Bydd yr Arglwydd Young yn cyhoeddi ei adolygiad o gyfraith ac arfer iechyd a diogelwch yn y sector cyhoeddus cyfan, gan gynnwys plismona, ym mis Medi. Ar ôl hyn, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau y gall swyddogion yr heddlu fynd ati i wneud eu gwaith heb gael eu rhwystro gan reoleiddio nac arferion diangen. Fel cam cyntaf, byddwn yn cefnogi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ymgorffori'r dull gweithredu a nodir yn ei ganllawiau, *Striking The Balance*, sy'n nodi dull synnwyr cyffredin o gymhwyso polisi iechyd a diogelwch at blismona. Yn ganolog i hynny, mae'r angen i gydnabod a chefnogi'n briodol swyddogion yr heddlu sy'n gwneud y peth cywir ac sy'n eu rhoi eu hunain mewn perygl er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

3.17 Y newidiadau hyn yw dechrau'r broses o ryddhau'r heddlu i wneud ei waith - lleihau troseddau a magu hyder ymhlith y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Rydym yn awyddus i glywed barn ar beth arall sy'n rhwystro hyn.

#### Sicrhau bod arweinwyr y gwasanaeth hwn yn ysgwyddo cyfrifoldeb

3.18 Nid y Llywodraeth sy'n creu'r holl fiwrocratiaeth. Mae llawer ohoni wedi'i chreu'n lleol, weithiau o ganlyniad i'r duedd i gasglu gwybodaeth a'i monitro, hyd yn oed pan nad oes angen gwneud hynny'n genedlaethol nac yn lleol mwyach. Mae rhywfaint ohoni wedi'i chreu gan sefydliadau plismona cenedlaethol, er enghraifft, canllawiau ACPO ac NPIA. Mae angen i'r gwasanaeth ei hun ystyried ei brosesau a'i athrawiaeth fewnol a all arwain at fiwrocratiaeth ddiangen. Mae angen cymryd camau i herio'r diwylliant sy'n amharod i gymryd risg sydd wedi datblygu ym maes plismona. Yn rhy aml, mae swyddogion yn casglu gwybodaeth rhag ofn bod ei hangen yn hytrach na defnyddio synnwyr cyffredin. Bydd angen i brif swyddogion ategu ac ymgorffori'r newid diwylliannol hwn, gan gyfleu negeseuon cyson i'w heddluoedd am y wybodaeth y mae angen iddynt ei chasglu a'r hyn nad oes ei angen. Mae'n rhaid i'r heddlu allu penderfynu sut yr ymdrinnir â digwyddiadau a sut y'u datrysir a byddwn yn disgwyl i ACPO ddangos arweinyddiaeth gref wrth hyrwyddo a chefnogi mwy o achosion o arddel barn broffesiynol gan swyddogion a staff yr heddlu.

3.19 Mae'n amlwg y bydd ran gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i'w chwarae i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cadw'r wybodaeth a'r prosesau sydd eu hangen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r cyhoedd a dileu unrhyw beth aneffeithlon neu ddiangen.

3.20 Bydd gwaith yn parhau i fynd rhagddo gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ac IPCC i sicrhau y caiff y gweithdrefnau camymddwyn a pherfformiad anfoddhaol diwygiedig (a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2008) eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r gweithdrefnau hynny yn galluogi rheolwyr lleol yr heddlu i ymdrin â chwynion y cyhoedd, achosion o gamymddwyn a pherfformiad gwael mewn ffordd lai biwrocraidaidd a gwrthwynebus. Maent wedi helpu i fyrhau'r amserlen ar gyfer ymdrin ag achosion ac wedi rhoi mwy o gyfrifoldeb ar reolwyr lleol fel rhan o'u gwaith o ymgysylltu â'u cymdogaethau. Yn yr achosion camymddwyn mwyaf difrifol, er enghraifft y rhai a all arwain at ddiswyddo unigolyn, maent wedi lleihau'r amser a gymerir i ddwyn swyddogion i gyfrif.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad:**

7. Yn lleol, beth yw'r enghreifftiau o fiwrocraitiaeth ddiangen mewn heddluoedd a sut y gall y gwasanaeth ddileu hyn?

8. Sut y dylai heddluoedd sicrhau bod gwybodaeth sy'n bwysig ym marn pobl leol ar gael heb greu proses cofnodi data feichus?

9. Pa wybodaeth y dylai HMIC ei defnyddio i ategu dull mwy cymesur o gyflawni ei 'rôl gyhoeddus o ran perfformiad', tra'n lleihau beichiau ac osgoi targedau de facto?

10. Sut y gall ACPO newid diwylliant gwasanaeth yr heddlu i symud oddi wrth gydymffurfio â chanllawiau manwl i arddel barn broffesiynol o fewn fframwaith clir yn seiliedig ar ganlyniadau?

11. Sut y gallwn rannu gwybodaeth am dechnegau plismona sy'n lleihau troseddau heb greu canllawiau diddiwedd?



## 4. Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Plismona Lleol Effeithlon

4.1 Nid yw troseddwy'r yn stopio wrth ffiniau heddluoedd. Mae'r troseddau a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a welir yn ein cymunedau ac sy'n effeithio ar ein busnesau yn aml yn gysylltiedig â throseddoldeb a bygythiadau sy'n dechrau mewn rhan arall o'r wlad, neu hyd yn oed ran arall o'r byd. Felly, mae angen i ni sicrhau bod gennym yr adnoddau cywir yn y lle cywir i fynd i'r afael â hyn. Mae'r Llywodraeth wedi ceisio rheoli'n genedlaethol yr hyn a wneir orau yn lleol ers gormod o amser - ond nid yw wedi gwneud digon i gefnogi heddluoedd ar faterion sy'n mynd y tu hwnt i'w hardal nac i sicrhau bod y galluoedd cenedlaethol cywir ar waith.

4.2 Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn canolbwyntio ar ddwyn eu heddlu lleol i gyfrif am fynd i'r afael â throseddau a diogelu'r cyhoedd. Mae angen i ni sicrhau y caiff plismona lleol a Chomisiynwyr eu cefnogi gan drefniadau cenedlaethol effeithiol. Mae angen i'r trefniadau helpu Comisiynwyr i sicrhau y defnyddir eu cyllidebau i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl a sicrhau y cedwir eu cymunedau lleol yn ddiogel rhag troseddwy'r a all weithredu ar draws ffiniau heddluoedd neu ffiniau cenedlaethol.

4.3 Bydd angen i heddluoedd ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio sy'n cael y gwerth gorau posibl o'u hadnoddau. Drwy gydweithredu â heddluoedd eraill, gallant wneud arbedion ar swyddogaethau cefn swyddfa a swyddogaethau cymorth, a diogelu'r cyhoedd rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol yn fwy effeithiol. Ac mae rhai pethau y mae angen eu gwneud unwaith yn unig, yn genedlaethol.

4.4 Cyflawnir hyn drwy:

- Well **gwerth am arian ym maes plismona lleol** – gan sicrhau bod digon o swyddogion a staff ar gael i'r cyhoedd ar yr adegau pan fo eu hangen fwyaf; a thrwy adolygu tâl ac amodau gwasanaeth swyddogion a staff yr heddlu.
- Gwell **cydweithredu rhwng heddluoedd** er mwyn arbed arian ar swyddogaethau cefn swyddfa a swyddogaethau cymorth gweithredol, a mynd i'r afael â throseddoldeb difrifol a thrawsffiniol yn fwy effeithiol.
- Symleiddio trefniadau cenedlaethol, gan gynnwys creu **Asiantaeth Troseddau Genedlaethol newydd** a fydd yn arwain y frwydr yn erbyn troseddau cyfundrefnol, diogelu ein ffiniau a darparu gwasanaethau a ddarperir orau yn genedlaethol.

4.5 Yn hyn oll, rydym am sicrhau "edau aur" plismona, fel y'i gelwir, yn y wlad hon - y cysylltedd rhwng plismona lleol yn y gymdogaeth drwy wasanaethau diogelu a phlismona rhyngwladol. Mae plismona lleol yn y gymdogaeth yn llywio ac yn cefnogi gweithgarwch gweithredol er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau, niwed a risgiau difrifol. Er enghraifft, efallai fod gwerthu cyffuriau ar y stryd yn un o flaenoriaethau plismona yn y gymdogaeth, ond mae hefyd yn rhoi cudd-wybodaeth am grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n mewnfario ac yn cyflenwi cyffuriau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwybodaeth gymunedol wedi bod yn hollbwysig wrth wrthsefyll nifer o gynllwynion gan derfysgwyr ac wrth helpu'r heddlu a'i asiantaethau partner yn eu hymchwiliadau.

4.6 Nid ydym yn mynd i greu nifer lawer llai o "heddluoedd strategol" yn gweithredu'n rhanbarthol drwy uno gorfodol. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried a gwrthod hyn. Nid yw mawr o reidrydd yn dda nac yn rhoi gwerth gwell am arian. Mae plismona ym Mhrydain ar ei orau wedi'i wreiddio'n gadarn mewn cymunedau lleol. Nid yw'r Llywodraeth yn

cefnogi gosod newidiadau strwythurol ar heddluoedd lleol y bydd y cyhoedd o'r farn eu bod yn creu cydgrynodau enfawr a phell, gan wanhau eu gallu i ddylanwadu ar y rhai sy'n eu cadw'n ddiogel a'u dwyn i gyfrif. Mae angen neilltuo adnoddau prin mewn cyfnod heriol i atgyfnerthu plismona rheng flaen, yn hytrach nag ariannu achosion uno dadleuol heb fawr ddim cefnogaeth gan y cyhoedd na chan wleidyddion. Beth bynnag, byddai newidiadau o'r fath yn cymryd blynyddoedd i ddwyn ffrwyth, ac yn y cyfamser, maent yn tynnu sylw arweinwyr yr heddlu oddi ar eu cenhadaeth ganolog o leihau troseddau a sicrhau'r gwerth gorau am arian.

4.7 Felly, nid ydym yn newid strwythur heddluoedd yn sylweddol. Ond rydym yn nodi'n glir y bydd Prif Gwnstabiliaid yn gyfrifol am yr holl blismona yn eu hardal, gan gydweithredu â'i gilydd ac â'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol, a chânt eu dwyn i gyfrif yn uniongyrchol gan y cyhoedd drwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.

#### Cefnogi gwerth gwell am arian ym maes plismona lleol

4.8 Er mwyn cynnal y gwasanaeth y mae'r cyhoedd yn ei gael, byddwn yn gwneud toriadau mawr i Lywodraeth ganolog a chyrrff cyhoeddus anadrannol. Ond bydd yn rhaid i'r heddlu ymgymryd â'i gyfran deg o'r baich. Bydd angen i wasanaeth cyfan yr heddlu ddangos arweiniad ynghylch sut i ymddwyn yn broffesiynol o dan amgylchiadau economaidd mwy heriol. Mae angen i ni fanteisio ar bob punt a gaiff ei gwario ar blismona i gynnal a gwella ansawdd y gwasanaeth rheng flaen y mae'r cyhoedd yn ei gael.

4.9 Mae'r cyhoedd am wybod yr ymdrinnir â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymdogaethau ac y bydd yr heddlu yno iddynt pan fydd ei angen arnynt.

4.10 Bydd Comisiynwyr yn gyfrifol am sicrhau gwerth am arian yn lleol a byddant am sicrhau bod eu heddlu yn manteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael i wella effeithiolrwydd. Ers gormod o amser, rydym wedi canolbwyntio ar faint o swyddogion sydd yn hytrach nag edrych ar yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud. Mae gan Brif Swyddogion rôl glir i sicrhau bod gweithlu cyfan yr heddlu ar gael yn fwy nag y mae ar hyn o bryd a'i fod yn fwy cynhyrchiol. Ni fydd cymunedau lleol yn derbyn sefyllfa lle mai dim ond tua un o bob deg swyddog yr heddlu sydd ar gael ar y strydoedd ar unrhyw adeg. Bydd angen i wasanaeth yr heddlu ganolbwyntio'n galed ar wella hyn drwy reoli a threfnu'r gweithlu yn well, a thrwy edrych yn gritigol ar y rolau y mae swyddogion yn ymgymryd â hwy mewn swyddogaethau gweithredol a chymorth busnes a sicrhau nad ydynt yn cyflawni dyletswyddau gweinyddol a thasgau cyffredin diangen lle na chaiff eu sgiliau na'u pwerau eu defnyddio'n briodol.

4.11 Dylem ddefnyddio staff yr heddlu i gyflawni swyddogaethau llafurus a gyflawnwyd gan swyddogion o'r blaen. Er enghraifft, nid yw cynnal cronfeydd data yn ddefnydd da o amser swyddog dan lw. Gallai'r dasg gael ei gwneud gan arbenigwr yn fwy effeithiol ac am lawer llai o arian, gan ryddhau'r swyddog i dreulio mwy o amser ar waith plismona rheng flaen. Gallai heddluoedd hefyd ystyried defnyddio'r sector preifat i ddarparu rhai gwasanaethau.

4.12 Dengys tystiolaeth o'r 14 o heddluoedd sy'n rhan o raglen QUEST y gall dileu elfennau gwastraffus prosesau ac adnoddau ym mhob maes plismona gweithredol (gan gynnwys troseddau cyffredin, plismona yn y gymdogaeth a'r system cyfiawnder troseddol) yn ogystal â'r swyddogaeth cymorth busnes cefn swyddfa, sicrhau gwelliannau mawr o ran cynhyrchiant a chanlyniadau gwell i'r cyhoedd.

4.13 Bydd angen i heddluoedd feddu ar ddealltwriaeth soffistigedig o'r galw lleol er mwyn sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio'n hyblyg ac yn effeithiol i gyfateb i'r galw hwnnw, gyda phatrymau sifft wedi'u cynllunio i sicrhau bod cymaint o swyddogion â phosibl ar gael. Bydd hyn yn lleihau'r angen am wariant ar oramser ym mhob maes plismona, a fydd yn hollbwysig er mwyn lleihau costau a chynnal lefelau gwasanaeth. A thrwy fanteisio i'r eithaf ar y dechnoleg sydd ar gael, bydd heddluoedd yn gallu cynyddu'r amser y mae swyddogion yn ei dreulio ar y strydoedd, gan arbed arian trethdalwyr ar yr un pryd.

4.14 Gall heddluoedd unigol hefyd chwarae rhan i leihau costau drwy annog mwy o gyfranogiad gan y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Mae Pennod 5 yn nodi'r rôl sydd gan yr heddlu, a thimau plismona yn y gymdogaeth yn benodol, i annog cyfleoedd gwirfoddoli fel staff yr heddlu neu gwnstabiliaid cynorthwyol, gan gymryd rhan mewn patrolau neu mewn cynlluniau gwarchod cymdogaeth sydd â'r nod o rwystro troseddau.

4.15 Bydd HMIC yn chwarae rhan allweddol i amlygu'r ffordd y mae heddluoedd lleol yn manteisio i'r eithaf ar eu hadnoddau i ddiwallu anghenion plismona lleol i'r cyhoedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Bydd yn llunio gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, gan adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned, a Phroffiliau Gwerth am Arian sy'n darparu data cymharol cyfoethog sy'n galluogi'r cyhoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a phrif swyddogion i wneud cymariaethau manwl rhwng ardaloedd heddluoedd. Bydd HMIC yn cynnal Arolygiadau Gwerth am Arian. Bydd yr arolygiadau hyn yn ystyried y gwerth am arian a gyflawnir gan weithgarwch lleol; drwy ddefnyddio contractau neu wasanaethau a ddarperir yn genedlaethol; a thrwy waith cydweithredol. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn gallu galw ar HMIC i arolygu eu heddlu neu agweddau ar ei waith os ydynt o'r farn na all y Prif Gwnstabl wneud cynnydd digonol o ran gwerth am arian.

4.16 Rydym hefyd am ledaenu gwybodaeth am y technegau plismona sydd fwyaf effeithiol o ran lleihau troseddau ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Byddem yn croesawu eich barn ar yr asiantaeth orau i wneud hyn.

#### *Adolygiad o daliad cydnabyddiaeth ac amodau gwasanaeth swyddogion a staff*

4.17 Mae gwariant ar y gweithlu yn cyfrif am tua 80% o wariant yr heddlu. Felly, mae'n bwysig ystyried y trefniadau hyn yn ofalus. Rydym am sicrhau y gall taliad cydnabyddiaeth ac amodau gwasanaeth y rhai sy'n gweithio ym maes plismona ddarparu gwasanaeth ardderchog a sicrhau gwerth am arian i'r cyhoedd. Fel rhan o Raglen y Glymblaid, rydym wedi lansio adolygiad llawn o daliad cydnabyddiaeth ac amodau gwasanaeth swyddogion a staff yr heddlu. Rydym wedi egluro y bydd yr adolygiad yn cwmpasu'r trefniadau ar gyfer swyddogion a staff am ei bod yn bwysig edrych ar weithlu'r heddlu yn ei gyfanrwydd. Byddwn yn cyhoeddi cylch gorchwyl ac aelodaeth yr adolygiad yn fuan.

4.18 Bydd yr adolygiad yn ategu gwaith John Hutton ar y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus, a fydd yn cynnal adolygiad strwythurol sylfaenol o ddarpariaeth pensiynau gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys pensiynau swyddogion a staff yr heddlu. Bydd y Comisiwn yn cynnig argymhellion ar ffyrdd o wneud pensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn yr hirdymor, yn deg i'r gweithlu a'r trethdalwr, a sicrhau eu bod yn gyson â'r heriau ariannol yn y dyfodol. Bydd y Comisiwn yn llunio adroddiad interim ym mis Medi 2010, gan ystyried yr achos dros arbedion byrdymor o fewn cyfnod Adolygiad o Wariant 2010, yn

gyson ag ymrwymiad y Llywodraeth i ddiogelu'r rhai ar incwm isel. Bydd y Comisiwn yn llunio adroddiad terfynol yn barod ar gyfer Cyllideb 2011.

#### Dull newydd o gydweithredu rhwng heddluoedd

4.19 Ar gyfer swyddogaethau plismona nad ydynt yn lleol yn benodol, mae angen i ni atgyfnerthu'r ffordd y gall heddluoedd gydweithredu â'i gilydd ac â phartneriaid eraill er mwyn cyflawni'r rhain yn fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd angen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau chwarae rhan allweddol i wneud i hyn ddigwydd o ran:

- amrywiaeth o swyddogaethau gweithredol a swyddogaethau cymorth cefn swyddfa nad yw'n synhwyrol nac yn fforddiadwy mabwysiadu 43 o ddulliau gwahanol ar eu cyfer; a
- swyddogaethau plismona rheng flaen i ddiogelu'r cyhoedd rhag troseddoldeb difrifol a throseddoldeb 'lefel 2' trawsffiniol<sup>8</sup> - gellir darparu'r gwasanaethau diogelu aciwt hyn (er enghraifft ymchwilio i droseddau mawr megis lladdiad neu ymdrin â gangiau troseddau cyfundrefnol) yn fwy effeithlon ac effeithiol.

4.20 Nid yw hyn yr un peth ag uno heddluoedd - mae cael heddluoedd lleol, y gall y cyhoedd uniaethu â hwy ac sy'n ymateb i anghenion y cyhoedd yn egwyddor blismona bwysig yng Nghymru a Lloegr ac ni ddylem newid hynny. Felly, fel y nodwyd isod, ni fyddwn yn gorfodi heddluoedd i uno. Dim ond pan fydd ceisiadau i uno heddluoedd yn wirfoddol, wedi'u hategu gan achos busnes cadarn ac wedi'u cefnogi gan y gymuned y byddwn yn eu hystyried. Mae angen i heddluoedd ystyried opsiynau eraill o ran cydweithredu gwell fel y nodir yn y Bennod hon.

4.21 Ceir rhai meysydd lle y mae'r trefniadau cydweithredu presennol yn gweithio'n dda, er enghraifft o ran plismona gwrthderfysgaeth lle y ceir strwythurau rhanbarthol a chenedlaethol sydd wedi gwella gallu gwasanaeth yr heddlu. Rydym yn credu y gall meysydd plismona eraill ddysgu gwersi yma - yn benodol ein hymateb i droseddau cyfundrefnol, fel yr amlygodd Comisiynydd yr Heddlu Metropolitaidd yn ddiweddar. Fodd bynnag, gan amlaf, gall y trefniadau cydweithredu presennol fod yn amrywiol iawn o ran sicrhau gwasanaethau gwell neu gostau is. Mewn llawer o feysydd, mae'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn rhy wan a dim ond ar ôl trafodaeth hir lle y mae hunan-les wedi gallu trechu lles pawb a phopeth y gwneir penderfyniadau ynghylch a ddylid cydweithredu ai peidio.

4.22 Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn lleihau'r fiwrocratiaeth hon ac yn hybu'r ymdrech gydweithredol er mwyn cefnogi eu Prif Swyddogion. Byddwn yn eu cefnogi drwy gyflwyno dyletswydd gref i gydweithredu a fydd yn sicrhau bod heddluoedd yn gwneud hyn yn yr amrywiaeth ehangaf posibl o swyddogaethau plismona. Bydd hyn yn helpu'r heddlu i leihau costau a diogelu'r cyhoedd yn well rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd yn golygu y bydd modd gwneud penderfyniadau ar fentrau cydweithredol yn llawer cynt nag a wneir ar hyn o bryd, a bydd yn rhoi mwy o atebolrwydd democrataidd i'r broses o gyflawni swyddogaethau plismona cydweithredol. Yn aml, mae'r swyddogaethau hyn yn llai gweladwy i'r cyhoedd, ond maent yr un mor bwysig er mwyn eu diogelu rhag niwed yn lleol.

---

<sup>8</sup> Mae'r Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol yn disgrifio troseddoldeb fel a ganlyn: Gall Lefel 1 (troseddoldeb lleol y gellir ei reoli mewn Uned Reoli Sylfaenol), Lefel 2 (materion trawsffiniol, gan gynnwys troseddau cyfundrefnol, digwyddiad mawr sy'n effeithio ar fwy nag un Uned Reoli Sylfaenol), Lefel 3 (Troseddau difrifol, terfysgaeth yn gweithredu'n genedlaethol neu'n rhyngwladol). Cau'r Bwch, HMIC (2005)

4.23 Wrth hybu gweithgarwch cydweithredu, byddwn yn disgwyl i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ddwyn eu Prif Gwnstabiliaid i gyfrif am:

- **gyrraedd y safonau proffesiynol ar gyfer darparu gwasanaethau diogelu a bennwyd gan ACPO**, gan gynnwys drwy gydweithredu, fel bod lefel ofynnol o wasanaeth y gall y cyhoedd ddibynnu arni ledled y wlad, a digon o gysondeb rhwng heddluoedd fel y gallant ddod at ei gilydd o hyd a gweithredu'n effeithiol ochr yn ochr â'i gilydd, os bydd argyfwng;
- **penderfynu ar y grŵp cywir o heddluoedd i gydweithredu â hwy**, gan ystyried seilweithiau cydweithredol presennol (er enghraifft y rhai ar gyfer gwrthderfysgaeth ac ar gyfer troseddau cyfundrefnol), gan arwain at ddull gweithredu mwy cyson a mwy o gyfleoedd;
- **nodi elfennau gwasanaethau gweithredol a chymorth busnes i gydweithredu arnynt** er mwyn diogelu'r cyhoedd a sicrhau gwerth am arian. Byddem yn disgwyl i ACPO roi barn broffesiynol ar y swyddogaethau hyn.

4.24 Bydd HMIC yn asesu penderfyniadau gan heddluoedd unigol a'u Comisiynwyr ynghylch ble i gydweithredu ag eraill ac ar effeithiolrwydd y cydweithrediad hwnnw wrth gynnal neu wella gwasanaethau am gost is. Byddem yn disgwyl i HMIC hysbysu'r Llywodraeth o'r achosion pan fydd heddluoedd a Chomisiynwyr wedi dewis peidio â chydweithredu lle mae manteision amlwg i wasanaeth ehangach yr heddlu. Byddwn yn cymryd camau i atgyfnerthu'r ddyletswydd gyfredol i gydweithredu fel y gall yr Ysgrifennydd Cartref orchymyn i heddluoedd gydweithredu, pan gaiff ei hysbysu o achosion a phan fydd er budd cenedlaethol.

4.25 Mewn ardaloedd lleol a phan fydd yn cyd-fynd â'r cydweithredu sydd ei angen rhwng heddluoedd, efallai y bydd cyfleoedd i ymuno â phartneriaid eraill i ddarparu rhai gwasanaethau. Ceir cydweithredu ar lefel cymdogaeth mewn rhai ardaloedd eisoes drwy ddulliau rheoli cymdogaethau/partneriaeth. Gallai cydweithredu lleol arwain at wella effeithlonrwydd ynghyd â gwaith partneriaeth. Mae gan y sector preifat y potensial i chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gwasanaethau trafodol cefn swyddfa. Byddwn hefyd am ystyried pa swyddogaethau eraill a allai gael eu darparu drwy'r sector preifat ar ran grwpiau o heddluoedd - megis cyfleusterau'r ddalfa.

4.26 Byddwn yn gweithio gyda gwasanaeth yr heddlu er mwyn sicrhau y manteisir ar gyfleoedd deddfwriaethol cyn gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu er mwyn lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chydweithredu - drwy ddileu rheoliadau diangen os oes angen.

#### Symleiddio'r trefniadau cenedlaethol

4.27 Rydym am gefnogi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau drwy gael trefniadau cenedlaethol effeithiol, clir a chydgyssylltiedig. Rydym am wella a symleiddio'r ffordd y gwneir pethau o ran materion plismona cenedlaethol a sicrhau cydlyniaeth yn hynny o beth - gan gwmpasu swyddogaethau gweithredol a chymorth gweithredol.

4.28 Byddwn yn rhoi'r gorau i'r arfer o gaffael pethau mewn 43 o ffyrdd gwahanol pan nad yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr yn weithredol nac yn ariannol; ac yn cyflwyno cydgysylltu cenedlaethol llawer cryfach mewn perthynas â rhai heriau plismona gweithredol trawsffiniol. Byddwn hefyd yn sefydlu Asiantaeth Troseddau Genedlaethol newydd i wella, yn benodol, ein hymateb i droseddau cyfundrefnol a gwella diogelwch ein ffiniau. Fel rhan o'r broses o symleiddio'r dirwedd genedlaethol, byddwn yn diddymu NPIA yn raddol, gan adolygu'r ffordd orau o gyflawni hyn.

*Ymateb gwell i droseddau cyfundrefnol ym maes gorfodi'r gyfraith*

4.29 Mae troseddau cyfundrefnol<sup>9</sup> yn peri niwed mawr i'r DU a'i buddiannau, ac amcangyfrifir mai rhwng £20 biliwn a £40 biliwn y flwyddyn yw'r costau cymdeithasol ac economaidd i'r wlad. Mae troseddwy'r cyfundrefnol heddiw yn graff ac yn entrepreneuriaidd ac nid ydynt yn parhau ffiniau lleol, rhanbarthol na chenedlaethol. Mae rhai yn gweithredu'n fyd-eang. Ond gwelir effeithiau eu troseddoldeb ar ein strydoedd ac yn ein cymunedau bob dydd.

4.30 Er gwaethaf rhai gwelliannau, a llwyddiannau gwirioneddol yn erbyn rhai grwpiau troseddol, nid yw ein hymateb ym maes gorfodi'r gyfraith wedi bod yn ddigonol ar gyfer y bygythiad hwn. Asesir bod tua 38,000 o unigolion yn ymwneud â throseddau cyfundrefnol sy'n effeithio ar y DU, a bod tua 6,000 o grwpiau troseddol cyfundrefnol. Y gwir yw nad yw maes gorfodi'r gyfraith yn effeithio ar ddigon o'r troseddwy'r hyn o bell ffordd.

4.31 Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cyhoeddi strategaeth gyffredinol newydd ar gyfer mynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol o'r lefel leol iawn i'r lefel drawsgenedlaethol, sy'n hybu gweithredu cydgysylltiedig ym maes gorfodi'r gyfraith ac ym mhob rhan o'r Llywodraeth, ac yn codi ymwybyddiaeth y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Cyn cyhoeddi'r strategaeth honno, ond mewn cam sy'n ganolog iddi yn ein barn ni, rydym yn cynnig newid pwysig i faes gweithredol gorfodi'r gyfraith. Credwn y gallwn gael dull mwy cydgysylltiedig a mwy rhesymegol o ymdrin â throseddau cyfundrefnol nag sydd ar waith ar hyn o bryd, gan ddarparu ymateb mwy effeithiol ac effeithlon, ac sy'n gallu ymdrin â'r diffyg eglurder ac atebolrwydd canfyddedig yn y trefniadau llywodraethu presennol. Gan ddysgu'r gwersi o'n hymateb i derfysgaeth ryngwladol, bwriadwn gysylltu cyfrifoldebau Prif Gwnstabiaild Lleol, a'u Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, â galluoedd plismona rhanbarthol - wedi'u cydgysylltu'n genedlaethol yn well a chydachyfeiriad strategol cryfach.

#### *Asiantaeth Troseddau Genedlaethol*

4.32 Byddwn yn creu corff pwerus newydd o swyddogion ymladd troseddau gweithredol ar ffurf Asiantaeth Troseddau Genedlaethol. Dylai'r Asiantaeth hon fanteisio ar alluoedd cudd-wybodaeth, dadansoddi a gorfodi'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) bresennol a'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein ac adeiladu arnynt. Ond dylai'r Asiantaeth newydd gysylltu'r galluoedd hyn yn well â'r galluoedd yng ngwasanaeth yr heddlu, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Asiantaeth Ffiniau'r DU ac amrywiaeth o bartneriaid cyfiawnder troseddol eraill.

4.33 Cynigiwn y caiff yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol ei harwain gan uwch Brif Gwnstabl. Dylai'r Asiantaeth fod yn gyfrifol am:

- **wella'r wybodaeth sydd gennym am y bygythiad gan droseddau cyfundrefnol.** Gan adeiladu ar waith presennol, gwelwn y bydd yr Asiantaeth yn gyfrifol am fapio manylion yr unigolion a'r grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n gweithredu yn y DU ac yn ei herbryn. Bydd yn creu darlun mwy cynhwysfawr o gudd-wybodaeth y gellir gweithredu yn ei chylch - sylfaen ein hymateb i'r bygythiad - yn amodol ar fesurau diogelu cadarn;
- **darparu prosesau pennu tasgau a chydgyssylltu cenedlaethol effeithiol** ar gyfer asedau'r heddlu. Gwelwn fod hyn yn estyniad rhesymegol o'r cynigion a gaiff eu

<sup>9</sup> Diffinnir troseddwy'r cyfundrefnol fel y rhai sy'n rhan o weithgareddau troseddol difrifol parhaus, gan weithio gydag eraill fel arfer, er elw mawr, yn y DU neu rywle arall.

datblygu eisoes gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU i gydgyssylltu'r ymateb i droseddau cyfundrefnol yn well. Yn benodol, rydym o'r farn y bydd yr Asiantaeth yn sicrhau cydlyniaeth yn y gweithgareddau sy'n alluoedd plismona rhanbarthol anghysylltiedig ar hyn o bryd.<sup>10</sup> Bydd yr Asiantaeth yn dibynnu ar effeithiolrwydd y galluoedd hyn er mwyn bod yn llwyddiannus, ond hefyd ar y rhai mewn heddluoedd lleol, a adnabyddir yn lleol, y mae'r cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu yn ymddiried ynddynt. Rydym wedi nodi'n glir bod ein diogelwch cenedlaethol yn dibynnu'n gyntaf ar gael cymdogaethau diogel. Rydym o'r farn y bydd y trefniadau pennu tasgau a chydgyssylltu newydd hyn yn destun protocol gweithredol tryloyw y cytunwyd arno rhwng prif gwnstabiliaid a'r Asiantaeth newydd;

- **gan sicrhau mwy o weithgarwch gorfodi'r gyfraith yn erbyn mwy o droseddwyr cyfundrefnol, am gost lai.** Mae hyn yn golygu blaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol: gan dargedu gorfodi cadarn at y troseddwyr mwyaf difrifol ond gan sicrhau y ceir mwy o ymyriadau cyfreithlon i amharu ar weithgareddau llawer mwy o droseddwyr eraill sy'n rhan o grwpiau troseddau cyfundrefnol - yn debyg i'r Model Gweithredu Troseddau Cyffredin a luniwyd gan SOCA;
- **atgyfnerthu ein trefniadau ar gyfer plismona'r ffiniau,** er mwyn gwella ein diogelwch cenedlaethol, gwella rheolaethau mewnfudo a gwella ein hymateb i droseddau cyfundrefnol - y mae'r rhan fwyaf o fathau ohonynt yn ymwneud â nwyddau, asedau neu bobl yn croesi ffin y DU rywbyrd, a hynny'n anghyfreithlon mewn llawer o achosion.

4.34 Rhagwelwn y bydd yr Asiantaeth newydd yn cynnwys nifer o 'unedau rheoli' gweithredol o dan arweinyddiaeth y Prif Gwnstabl â gofal - yn cynnwys, er enghraifft, uned reoli troseddau cyfundrefnol; uned reoli plismona'r ffiniau; ac (o bosibl) uned reoli cymorth gweithredol. Fel y trafodir isod, efallai y bydd materion cenedlaethol eraill y gallai'r Asiantaeth newydd fod yn gyfrifol amdanynt, a hynny'n rhesymegol.

4.35 Bydd angen pennu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd diwygiedig clir a chadarn ar gyfer yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol newydd, gan gydnabod ei ffocws gweithredol yn seiliedig ar gudd-wybodaeth. Bydd angen i'r rhain ymwneud â'r cyhoedd yn fwy na'r trefniadau presennol ac mae'n rhaid sicrhau eu bod yn gysylltiedig â'r rôl bwysig y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn ei chwarae mewn perthynas â heddluoedd unigol a mentrau cydweithredol. Rhagwelwn, er enghraifft, y bydd Comisiynwyr o dan ddyletswydd i gydweithredu, nid dim ond â'i gilydd, ond hefyd â chyrrff eraill megis yr Asiantaeth newydd. Rydym yn cydnabod y bydd yn bwysig bod atebolrwydd yr Asiantaeth newydd yn gwbl glir i'r cyhoedd, gan gynnwys ei chynnydd wrth gyflawni canlyniadau penodol.

4.36 Byddai sefydlu Asiantaeth Troseddau Genedlaethol a dulliau cydweithredol yn gyson â'r gwaith a arweinir gan ACPO i wella'r hyn y cyfeirir ato fel gallu gwasanaeth yr heddlu i ryngweithredu. Yn y bôn, mae a wnelo hyn â sicrhau y gall unedau a phersonél gwahanol yr heddlu weithio gyda'i gilydd yn ddi-dor pan fo angen (megis mewn ymateb i ddigwyddiad terfysgol; ymchwiliad i droseddau cyfundrefnol; neu ddigwyddiad cyhoeddus mawr). Ar gyfer rhai agweddau penodol ar blismona, mae hyn yn gofyn, er enghraifft, am safonau cyffredin o ran arfer proffesiynol a chyfarpar; systemau cyfathrebu cydweddol; ac eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am beth.

---

<sup>10</sup> Yn cynnwys Timau Adennill Asedau Rhanbarthol; Unedau Cudd-wybodaeth Rhanbarthol; ac Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol.

4.37 Ein cynnig cychwynnol yw y dylai'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol newydd ganolbwyntio ar wella'r ymateb gweithredol i droseddau cyfundrefnol a gwella diogelwch ein ffiniau, am mai'r meysydd hyn sydd bwysicaf o ran diogelu'r cyhoedd yn ein barn ni.

4.38 Ond ceir heriau eraill o ran troseddau trawsffiniol y gallai'r Asiantaeth newydd chwarae rhan bwysig ynddynt hefyd. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth wedi nodi ymrwymiad i atgyfnerthu'r gwaith o fynd i'r afael â throseddau economaidd difrifol, a byddwn yn ystyried y cyswllt rhwng hyn ac Asiantaeth Troseddau Genedlaethol. Bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad gwaith ar y ffordd o fynd i'r afael â throseddau economaidd. Byddwn yn ystyried unrhyw oblygiadau posibl i blismona gwrthderfysgaeth maes o law ac ar ôl ymgynghoriad llawn. Mae strwythurau cenedlaethol effeithiol eisoes ar waith ym maes plismona gwrthderfysgaeth.

4.39 Mae nifer fawr o unedau plismona 'cenedlaethol' wedi datblygu hefyd, dros amser, gydag amrywiaeth o gyfrifoldebau. Mae'r darlun cyffredinol bellach yn peri dryswch. Ac mae atebolrwydd cyhoeddus gweithgareddau rhai o'r unedau hyn yn aneglur ar y gorau. Mae rhai o'r unedau cenedlaethol hyn yn rhan o heddluoedd unigol (megis Uned e-Droseddau Ganolog yr Heddlu sydd yng Ngwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaid). Ond mae nifer o unedau eraill yn dod o dan faner ACPO - megis Canolfan Gwybodaeth a Chydgyssylltu Genedlaethol yr Heddlu (PNICC), sy'n gyfrifol am gydgyssylltu'r broses o neilltuo adnoddau'r heddlu yn genedlaethol, pan fo angen. Wrth i ACPO ei hail-leoli ei hun mewn trefniant teiran wedi'i ailgydbwyso, efallai y byddai modd i'r cyfrifoldeb am rai o'r swyddogaethau a gyflawnir gan yr unedau cenedlaethol hyn ar hyn o bryd ddod o fewn cwmpas yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol.

4.40 Mae'n bosibl - wrth i ni adolygu swyddogaethau NPIA - y gallai rhai ohonynt ddod o fewn cwmpas yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol hefyd, drwy sefydlu uned reoli gymorth benodol. Ond byddem am sicrhau nad oedd hyn yn amharu ar ffocws gweithredol yr Asiantaeth newydd. Dros amser, gellid ychwanegu rhagor o gyfrifoldebau ychwanegol.

4.41 Mae'r Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol wrthi'n ystyried troseddau cyfundrefnol yng nghyd-destun y broses blaenoriaethu diogelwch cenedlaethol gyffredinol. Caiff y cynigion a amlinellwyd uchod eu datblygu yn unol â'r Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol a'r gwaith o'i ystyried gan y Cyngor Diogelwch Cenedlaethol.

#### *Atgyfnerthu ein ffiniau*

4.42 Mae Rhaglen y Glymblaid ar gyfer Llywodraeth yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu Heddlu Ffiniau i wella diogelwch cenedlaethol, gwella rheolaethau mewnffudo a mynd i'r afael â'r achosion o fasnachu mewn pobl, bywyd gwyllt, arfau a chyffuriau. Ar hyn o bryd, mae gormod o asiantaethau yn gweithio'n ddigyswllt ar reolaethau a diogelwch ffiniau sydd wedi arwain at fylchau mewn prosesau a chyfathrebu, llinellau adrodd ac atebolrwydd gwahanol, a dim proses, trosolwg na strategaeth syml ar gyfer hynt nwyddau a phobl drwy wiriadau a rheolaethau.

4.43 Cynigiwn mai'r Prif Gwnstabl sy'n arwain yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol a ddylai fod yn gyfrifol am Uned Reoli Heddlu'r Ffiniau. Bydd yr Uned Reoli newydd hon yn gweithio'n unol â strategaeth genedlaethol, gan gynnwys asesiad o risg a blaenoriaethau a rhaglen o weithgarwch gweithredol amlasiantaethol. Fel rhan o'r trefniadau hyn, bydd yr Uned Reoli newydd yn gyfrifol am gydgyssylltu a phennu tasgau'r staff gweithredol hynny ym maes gorfodi'r ffiniau a fydd gyda'i gilydd yn ffurfio gallu



Heddlu'r Ffiniau newydd. Pennir gofynion deddfwriaethol cyn gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu. Bydd camau i gyflwyno'r trefniadau newydd yn raddol yn dechrau ar unwaith.

#### *Yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona*

4.44 Mae NPIA wedi gwneud llawer i gyflwyno newidiadau angenrheidiol ym maes plismona. Yn benodol, mae wedi bod yn sbardun ar gyfer nodi meysydd lle y gellir gwneud enillion effeithlonrwydd mewn heddluoedd, annog mwy o gydweithredu a nodi meysydd lle y gellir cyflawni arbedion maint drwy fframweithiau caffael cenedlaethol. Mae wedi llwyddo yn y cam cyntaf o'r broses o resymoli nifer o asiantaethau gwahanol sy'n gyfrifol am gefnogi heddluoedd. Ond nawr yw'r adeg gywir i ddiddymu NPIA yn raddol, gan adolygu ei rôl a'r ffordd y mae hon yn cyd-fynd â thirwedd genedlaethol wedi'i symleiddio.

4.45 Byddwn yn ystyried pa agweddau ar swyddogaethau NPIA sydd eu hangen o hyd ac os felly, y ffordd orau o'u cyflawni mewn tirwedd newydd, gan gynnwys modelau ariannu amgen. Mae'n amlwg bod rhai o'i swyddogaethau cymorth yn hollbwysig i blismona llwyddiannus megis darparu seilwaith heddlu cenedlaethol hanfodol, megis cronfeydd data canolog. Byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer y ffordd orau o ymdrin â seilwaith cenedlaethol critigol a swyddogaethau cymorth gwerth am arian NPIA. Gallai fod rôl estynedig i'r Swyddfa Gartref o ran y swyddogaethau olaf. Gallai cyfrifoldeb am y seilwaith cenedlaethol critigol drosglwyddo i uned reoli gymorth benodol yn yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol newydd - ar yr amod na fyddai'n amharu ar ei ffocws gweithredol.

4.46 Byddwn yn gweithio gydag NPIA, gwasanaeth ehangach yr heddlu a phartneriaid eraill ac yn penderfynu pa rai o'i swyddogaethau y dylid eu cyflawni ble, erbyn yr hydref eleni. Rhagwelwn y caiff NPIA ei diddymu'n llwyr erbyn gwanwyn 2012.

4.47 Byddwn yn ceisio gwneud y newidiadau deddfwriaethol fel y gellir creu'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol newydd cyn gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu. Wrth wneud hynny, byddwn yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i sefydlu'r awdurdodaeth briodol ar gyfer yr Asiantaeth. Ein huchelgais yw y bydd yr Asiantaeth yn gwbl weithredol erbyn 2013, gydag elfennau allweddol o'i swyddogaethau yn weithredol cyn hynny fel rhan o gyfnod trosiannol.

#### *Llywio dull gweithredu cenedlaethol newydd pan fo'i angen*

4.48 Yn ogystal â rhesymoli ac atgyfnerthu rhai o'n hasedau cenedlaethol presennol drwy sefydlu'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol, mae angen i ni ddatblygu dulliau gweithredu newydd mewn nifer fach o achosion pan fo hynny er budd cenedlaethol. Nid oes a wnelo hyn â llesteirio barn Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiailid yn lleol ar sut maent yn dyrannu adnoddau i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol - ond yn hytrach, gan eu helpu i gael y gwerth gorau am bob punt a gaiff ei gwario.

4.49 Felly, bydd y Llywodraeth yn nodi'r trefniadau dan gontract i'w defnyddio gan wasanaeth yr heddlu i gaffael offer a nwyddau a gwasanaethau eraill. Mewn llawer o achosion, llywodraeth ganolog, llywodraeth leol neu gyrff cyhoeddus eraill fydd yn rhoi'r trefniadau ar waith. Mewn rhai achosion, pan geir angen sy'n ymwneud â gwasanaeth yr heddlu yn benodol, pan fydd yn bwysig yn aml sicrhau bod heddluoedd yn gallu rhyngweithredu, neu pan nad oes trefniadau dan gontract addas yn bodoli, caiff trefniadau newydd eu rhoi ar waith.

4.50 Mae dull gweithredu cenedlaethol ar waith (y Strategaeth Gwella Systemau Gwybodaeth) i sicrhau y gall y systemau TG ym mhob un o'r 43 o heddluoedd ddod at ei gilydd a 'siarad â'i gilydd', bod trefniadau cenedlaethol ar waith ar gyfer prynu caledwedd a meddalwedd a bod dull wedi'i resymoli o ymdrin â staff cymorth TG.

4.51 Byddwn yn deddfu ar gyfle cynnar i sicrhau sail gydlynol i'r Ysgrifennydd Cartref nodi trefniadau caffael i'w defnyddio gan wasanaeth yr heddlu, a sicrhau bod systemau TG yn cydgyfeirio. Yn y cyfamser, er mwyn sicrhau y gwneir arbedion cyn gynted â phosibl, byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer rheoliadau o dan ddeddfwriaeth bresennol i nodi trefniadau dan gontract penodol i'w defnyddio gan Wasanaeth yr Heddlu. Rydym yn cyhoeddi ymgynghoriad manylach ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar y rheoliadau ar gyfer mandadu nwyddau a gwasanaethau.

4.52 Yn ogystal, gellir trefnu rhai swyddogaethau plismona yn synhwyrol yn genedlaethol. Er enghraifft, mae gwasanaeth yr heddlu yn gweithio i roi Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ar waith. Byddwn yn ystyried yr achos dros wasanaethau pellach wedi'u trefnu'n genedlaethol gan ystyried cynlluniau busnes dan arweiniad gwasanaeth yr heddlu.

#### *Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu*

4.53 Rydym am broffesiynoli'r heddlu ar bob lefel. Mae angen i ACPO chwarae ei rôl yn hyn o beth drwy ei hail-leoli ei hun fel y sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddarparu'r arweiniad proffesiynol i wasanaeth yr heddlu, drwy ymgymryd â'r rôl arweiniol i bennu safonau a rhannu arfer gorau ym mhob un o weithgareddau'r heddlu. Mae ffocws ACPO ar safonau proffesiynol yn golygu y dylai chwarae rhan arweiniol hefyd i ddatblygu arweinwyr, gan gynnwys rhai rhaglenni hyfforddi, tra'n sicrhau cefnogaeth a her effeithiol gan ddarparwyr eraill. Bydd ACPO yn parhau i chwarae rhan allweddol i gynghori'r Llywodraeth, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Gwasanaeth yr Heddlu ar strategaeth, arfer gorau a materion gweithredol. Caiff polisi strategol ei bennu'n lleol gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ac yn genedlaethol gan y Llywodraeth.

4.54 Byddwn yn disgwyl i ACPO chwarae rhan arweiniol i sicrhau bod Prif Gwnstabiliaid yn hybu gwerth am arian, ac yn meddu ar y gallu i leihau costau yn eu heddluoedd. Byddwn yn dirymu penderfyniad y Llywodraeth flaenorol i greu Panel Uwch Benodiadau'r Heddlu.

4.55 Mae ACPO ei hun yn cydnabod yr angen i wella ei hatebolrwydd am yr hyn y mae'n ei wneud ac am yr arian cyhoeddus y mae'n ei gael. Bydd angen iddi feddu ar strwythur llywodraethu sy'n ei gwneud yn atebol i'r rhai sy'n ei hariannu ac sydd â mandad etholedig - yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol - ar gyfer plismona; yn gryno, bydd y Trefniant Teiran wedi'i ailgydbwyso yn cynnwys rôl allweddol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn y dyfodol. Rydym yn cydweithio ag ACPO i gytuno ar y strwythur mwyaf priodol ar gyfer cyflawni hyn, ac atebolrwydd a thryloywder fydd yr amodau allweddol.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad:**

12. Pa swyddogaethau plismona a ddylai gael eu cyflawni drwy gydweithredu rhwng heddluoedd?

13. Beth yw'r prif rwystrau i gydweithredu rhwng heddluoedd neu â phartneriaid eraill a sut y gellir ymdrin â hwy?

14. A oes swyddogaethau y mae angen eu cydgysylltu'n genedlaethol yn fwy neu y byddai'n gwneud synnwyr eu trefnu a'u rhedeg yn genedlaethol (ond eu cyflawni'n lleol o hyd)?

15. Sut y gall gwasanaeth yr heddlu fanteisio ar arbenigedd y sector preifat i wella gwerth am arian, er enghraifft ym maes cymorth gweithredol, neu swyddogaethau cefn swyddfa a rennir rhwng sawl heddlu, neu â darparwyr eraill yn y sector cyhoeddus?

16. Pa swyddogaethau y gallai Asiantaeth Troseddau Genedlaethol newydd eu cyflawni ar ran heddluoedd ochr yn ochr â'i ffocws ar droseddau cyfundrefnol a diogelwch ffiniau, a sut y dylid ei dwyn i gyfrif?

17. Pa drefniadau a ddylai fod ar waith yn y dyfodol i sicrhau bod digon o brif swyddogion ar gael, yn enwedig ar gyfer y rolau arwain mwyaf heriol yng ngwasanaeth yr heddlu? A oes rôl i ddarparwyr eraill ddarparu hyfforddiant?

18. Sut y gallwn gynyddu gallu gwasanaeth yr heddlu yn gyflym i ymddwyn yn fwy fel busnes, gydag arweinwyr yr heddlu yn ymgymryd â rôl fwy amlwg i helpu i hybu newid diwylliannol angenrheidiol wrth wella prosesau busnes cynaliadwy?

## Pennod 5. Mynd i'r afael â throseddau gyda'n gilydd

5.1 Bydd cyflwyno atebolrwydd democrataidd, yn lle atebolrwydd biwrocraataidd, ac atgyfnerthu trefniadau cenedlaethol yn helpu'r heddlu i leihau troseddau. Ond nid dim ond yr heddlu sy'n lleihau troseddau. Mae angen i'r system cyfiawnder troseddol gyfan weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i leihau troseddau - gan ddwyn troseddwy'r o flaen eu gwell, sicrhau cyfiawnder teg a chymesur, cefnogi dioddefwyr a thystion ac atal troseddu ac aildroseddu. Hyd yn oed yn fwy na hyn, nid dim ond y wladwriaeth sy'n gallu lleihau troseddau. Mae rôl y cyhoedd wedi bod yn glir ers i Syr Robert Peel nodi mai'r cyhoedd yw'r heddlu a'r heddlu yw'r cyhoedd. Gall unigolion a chymdogaethau â dinasyddion gweithgar helpu i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a helpu'r heddlu i gadw eu hardal yn ddiogel. Ond ers gormod o amser, mae'r Llywodraeth wedi ceisio gosod gwasanaethau ar gymunedau, gan rwystro gweithredu ac actifiaeth leol.

5.2 Mae cydweithrediad y cyhoedd - nid dim ond cydsyniad goddefol - yn hanfodol er mwyn i'r heddlu wneud ei waith. Rydym am adfer hyder mewn plismona fel bod mwy o bobl yn chwarae rhan. Bydd mwy o bobl sy'n rhoi gwybodaeth, sy'n barod i fod yn dystion ac sy'n hyderus y cânt eu cefnogi pan fyddant yn gwrthsefyll ymddygiad gwrthgymdeithasol yn helpu'r heddlu i leihau troseddau.

5.3 Yn ystod y blynyddoedd i ddod, byddwn wedi meithrin partneriaeth rhwng pobl a'r heddlu - ar y naill llaw gan ryddhau'r heddlu oddi wrth y fiwrocraatiaeth a'r targedau sy'n atal lleoliaeth wirioneddol, ac ar y llaw arall gan ddarparu'r cymhellion, yr hyfforddiant a'r anogaeth i bobl o bob cefndir i helpu i blismona eu cymunedau eu hunain. Mewn partneriaeth â phartneriaid cyfiawnder troseddol, byddwn wedi gweithredu diwygiadau radical ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol a fydd - yn debyg i blismona - yn canolbwyntio'n fwy ar anghenion cymunedau lleol yn hytrach nag ar Whitehall. Byddwn yn galluogi sefydliadau i weithio gyda'i gilydd ym maes adsefydlu er mwyn lleihau aildroseddu yn hytrach na chael eu tynnu oddi wrth ei gilydd gan dargedau a mentrau cenedlaethol croes. Byddwn wedi helpu partneriaid i weithio gyda'i gilydd gan ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau. Bydd y diwygiadau hyn wedi ailfagu hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol, a bydd mwy o bobl yn gallu chwarae rhan weithredol eu hunain ac yn fodlon gwneud hynny fel rhan o Gymdeithas Fawr.

5.4 Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- alluogi ac annog pobl i chwarae rhan a symbylu actifyddion yn y gymdogaeth;
- datblygu a gweithredu strategaeth radical i ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol;
- dileu amodau a biwrocraatiaeth ddiangen mewn partneriaethau.

### Galluogi ac annog pobl i chwarae rhan a symbylu actifyddion yn y gymdogaeth

5.5 Rhan allweddol o'r diwygiadau hyn yw cynyddu'r rhan a gaiff ei chwarae gan y gymuned a hyrwyddo mwy o gyfrifoldeb gan unigolion am gadw cymdogaethau'n ddiogel. Mae llawer o'r gwasanaethau a fydd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r dull gweithredu newydd hwn wedi'u datganoli. Bydd angen i ni gydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru i weld sut mae ein cynlluniau ni a'n cynlluniau hwy yn gallu dod at ei gilydd.

5.6 Byddwn yn canolbwyntio ar rymuso unigolion a chymunedau nid yn unig i allu dwyn asiantaethau i gyfrif, ond hefyd i danlinellu bod atal troseddau yn gyfrifoldeb a rennir. Yn aml, deuir o hyd i atebion i broblemau lleol mewn cymunedau, a bydd lleihau cyfrifoldeb y wladwriaeth yn galluogi actifyddion a grwpiau yn y gymdogaeth i chwarae

eu rhan lawn. Byddwn yn rhoi mwy o gyfleoedd am actiffaeth a chyfranogiad cymunedau drwy:

- Roi mwy o bŵer i gymunedau;
- Annog pobl i chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau;
- Trosglwyddo pŵer o lywodraeth ganolog i lywodraeth leol;
- Cefnogi mentrau cydweithredol, mentrau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol; a
- Cyhoeddi data'r Llywodraeth.

5.7 Drwy wneud y pethau hyn, gan ganolbwyntio'n fwy ar yr hyn y mae pobl leol yn dweud eu bod am ei gael yn hytrach nag ar benderfyniad Whitehall, byddwn yn magu hyder pobl yn y system cyfiawnder troseddol. Ac mae hyn yn ei dro yn bwysig er mwyn i fwy o bobl chwarae rhan a chefnogi arferion cymdeithasol cadarnhaol yn eu cymunedau. Mae angen i bobl ymddiried yn yr heddlu a bod â'r hyder y bydd y llysoedd yn cymryd camau er mwyn iddynt chwarae eu rhan a rhoi gwybod am droseddau neu roi tystiolaeth. Mae angen i bobl deimlo'n ddiogel yn eu strydoedd a gwybod y bydd yr heddlu, cymdeithasau tai a chynghorau lleol yno iddynt, er mwyn iddynt ddod ynghyd fel cymunedau i ddatrys problemau megis troseddau ymhlith pobl ifanc neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

5.8 Cymdogaethau yw sylfaen allweddol y Gymdeithas Fawr; dyna lle yr ymgysylltir â phobl a lle y darperir gwasanaethau rheng flaen. Mae gan dimau plismona yn y gymdogaeth ran allweddol i'w chwarae i symbylu cyfranogiad y gymuned. Drwy fod ar gael, gofyn i bobl am eu pryderon, ymdrin â hwy a rhoi gwybod i bobl beth sydd wedi'i wneud, mae plismona yn y gymdogaeth wedi bod yn bwysig o ran magu hyder eu cymunedau. Ac am eu bod yn gweithio gyda chymdogaethau dynodedig, gall swyddogion a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu feithrin ymddiriedaeth cymunedau fel y gallant helpu'r heddlu i ddatrys troseddau, yn aml rhai difrifol iawn, a chymryd camau gorfodi mewn perthynas â hwy.

5.9 Byddwn yn hyrwyddo'r amrywiaeth o ffyrdd y gall dinasyddion chwarae eu rhan i gadw eu cymdogaethau yn ddiogel ac yn eu hannog i wneud hynny. Cam allweddol fydd ei gwneud yn haws i gysylltu â'r heddlu a rhoi gwybod am droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddwn yn chwilio am ffordd gosteffeithiol o sicrhau mai'r rhif '101' yw rhif diargyfwng cenedlaethol yr heddlu ar gyfer rhoi gwybod am droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dros amser, byddai hyn yn galluogi partneriaid lleol i ymuno â'r heddlu i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon i'r cyhoedd y gallant gael gafael arnynt yn haws, yn unol ag anghenion lleol a blaenoriaethau lleol.

5.10 Ledled y wlad, rydym am gefnogi dinasyddion mwy gweithgar: gan gymryd rhan mewn patrolau ar y cyd â'r heddlu, gofalu am eu cymdogion a rhoi cyngor ar ddiogelwch fel rhan o grwpiau Gwarchod Cymdogaeth neu Swyddogion Ymladd Troseddau Cymunedol. Bydd mwy o bobl yn cynghori'r heddlu fel aelodau o grwpiau cynghori annibynnol ieuencid, gan ddod ynghyd fel cymunedau i lofnodi cytundebau cymdogaethau sy'n nodi ymrwymadau lleol gwasanaethau a chymunedau i fynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan allu dweud eu dweud yn fwy o ran y ffordd y caiff arian ei wario (cyllidebu cyfranogol) a'r ffordd y mae troseddwr yn gwneud iawn am eu troseddau (cyfiawnder adferol cymunedol). Ac mae pobl yn gwirfoddoli'n fwy ffurfiol ym mhob rhan o faes cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol - fel cwnstabiliaid cynorthwyol, ynadon, cadetiaid yr heddlu a gwirfoddolwyr cymorth i ddioddefwyr i enwi ond rhai yn unig.

5.11 Drwy roi eu hamser rhydd yn wirfoddol, mae cwnstabiailid cynorthwyol a gwirfoddolwyr eraill yr heddlu yn darparu ffordd ddiriaethol i ddinasyddion wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Mae ganddynt hanes hir yn yr heddlu. Cafwyd y nifer fwyaf ohonynt, dros 67,000, yn y 1950au, ond lleihaodd y nifer i tua 24,000 yn 1974 ac 11,000 yn 2004, er ei bod wedi cynyddu i 15,000 heddiw.

5.12 Rydym am weld mwy o gwnstabiailid cynorthwyol ac ystyried syniadau newydd i helpu i ryddhau potensial gwirfoddolwyr yr heddlu yn y gweithlu, er enghraifft fel swyddogion yr heddlu wrth gefn. Maent yn arwyddion amlwg o'r Gymdeithas Fawr ar waith, gan ddangos y rôl sydd gan unigolion a chymunedau i helpu i ymladd ac atal troseddau. Yn ogystal ag ychwanegu gwydnwch, bydd mwy o gyfranogiad gan gwnstabiailid cynorthwyol a gwirfoddolwyr yn helpu i agor gwasanaeth yr heddlu i grŵp mwy amrywiol o bobl â sgiliau a phrofiad bywyd gwahanol.

5.13 Rydym hefyd am gefnogi sefydliadau sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i gymunedau ac sy'n gwneud hynny eisoes, yn hytrach na dibynnu ar y Llywodraeth fel yr unig ddarparwr. Byddwn yn gweithio gyda Swyddfa Cymdeithas Sifil (yn Lloegr) i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys mentrau cydfuddiannol, mentrau cydweithredol, elusennau a mentrau cymdeithasol. Byddwn yn annog heddluoedd yn Lloegr i lofnodi compactau lleol rhyngddynt hwy a'r sector gwirfoddol, sy'n nodi rhai egwyddorion allweddol ynghylch sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd.

5.14 Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cyhoeddi strategaeth droseddau newydd, a fydd yn nodi'n fanylach sut y bydd y dull o atal a lleihau troseddau yn cael ei ail-lunio yn y Gymdeithas Fawr.

#### Datblygu a gweithredu strategaeth radical i ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol

5.15 Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i ddatganoli cyfrifoldeb i'r holl bartneriaid cyfiawnder troseddol. Ar hyn o bryd, mae'r system cyfiawnder troseddol yn rhy bell oddi wrth gymunedau, nid yw'n dryloyw, ac nid yw'n atebol i'r cyhoedd nac yn canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr yn ddigonol. Mae angen gwaith ym mhob rhan o'r system hefyd i leihau gwastraff a rhyddhau gweithwyr proffesiynol oddi wrth ganllawiau a thargedau canolog fel y gallant ganolbwyntio ar leihau troseddau ac ailfagu hyder yn y system. Byddwn yn darparu cymhellion, gan dalu yn ôl canlyniadau a sicrhau bod gwerth am arian a dealltwriaeth o'r dystiolaeth orau sydd ar gael wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd hyn yn cynnwys:

- Dull gweithredu newydd mewn perthynas â lleihau troseddau, gan gynnwys dull newydd o ymdrin â throseddau ymhlith pobl ifanc, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol - gan gynnwys dinasyddiaeth fwy gweithgar a mwy o gyfranogiad gan y sector gwirfoddol - ac ymdrin â'r cysylltiad rhwng cyffuriau, alcohol a throseddau yn effeithiol;
- Diwygio'r heddlu, fel y nodir yn y ddogfen hon, gan gyflwyno atebolrwydd democrataidd yn lle atebolrwydd biwrocraidaidd a chan drosglwyddo pŵer a barn i'r lefel leol;
- Diwygio dedfrydau er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol o ran atal troseddau, diogelu'r cyhoedd, cosbi troseddwyr ac, yn enwedig, leihau aildroseddu;
- Datblygu dull newydd o adsefydlu troseddwyr, er mwyn sicrhau y diogelir y cyhoedd, y gwneir iawn am droseddau i ddioddefwyr ac y cosbir troseddwyr gan roi'r cyfle iddynt hefyd newid eu bywydau yn llwyr. Rydym am greu'r cymhellion cywir i asiantaethau adsefydlu troseddwyr ac ysgogi arloesedd drwy agor y farchnad i'r

sector preifat a'r sector di-elw. Ein gweledigaeth yw sicrhau bod pob dedfryd, p'un a yw yn y carchar neu yn y gymuned, yn cosbi, ond hefyd yn cynnwys addysg, gwaith caled a newid, fel y gall troseddwr integreiddio â'u cymunedau'n fwy effeithiol na phan wnaethant ymuno â'r system cyfiawnder troseddol;

- Adolygu cyfraniad yr ystad carchardai i adsefydlu a lleihau aildroseddu a datblygu strategaeth capasiti carchardai gynaliadwy a chosteffeithiol fel rhan o'r Adolygiad o Wariant.

5.16 Gan gydweithio'n agos ag asiantaethau cyfiawnder troseddol, byddwn yn sicrhau bod y system yn fwy cydlynol, hygyrch a thryloyw i'r cyhoedd. Mae'n rhaid i'r system cyfiawnder troseddol atgyfnerthu cyfrifoldeb a sicrhau bod troseddu bob amser yn arwain at ganlyniadau y gall y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith eu gweld.

5.17 Ni ellir parhau â system lle y mae hanner yr heddlu, sef cynrychiolwyr cyntaf y system y bydd y rhan fwyaf o bobl yn dod i gysylltiad â hwy (a'r unig gynrychiolwyr yn aml), yn dweud y byddent yn ei beirniadu. Mae angen cael system y mae cymunedau a gweithwyr proffesiynol at ei gilydd yn ymfalchïo ynddi, gydag achos a gwerthoedd cyffredin yn ein huno. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar bawb a all helpu i leihau troseddau; gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r maes cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i ganolbwyntio ar gymunedau lleol a chyda'r cymunedau lleol hyn yn chwarae rhan bwysig eu hunain.

#### Dileu amodau canolog diangen mewn perthynas â phartneriaethau lleol

5.18 Mae gan yr heddlu hanes hir o weithio mewn partneriaeth. Mae amrywiaeth o bartneriaethau statudol ac anstatudol ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol sy'n cynnwys yr heddlu wedi datblygu yn ystod y 13 blynedd diwethaf. Mae'r rhain yn gweithredu ar lefelau daearyddol gwahanol ond mae eu rôl a'u cylch yn gorgyffwrdd i ryw raddau, gan beri dryswch ynghylch priod rolau a biwrocratiaeth sy'n cyfyngu ar eu gallu i gydweithio'n effeithiol.

5.19 Bydd gwaith effeithiol mewn partneriaeth yn arbennig o bwysig wrth i asiantaethau weithio i gynnig gwasanaeth gwell o fewn adnoddau sy'n tynhau. Bydd y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithiol os yw'r rhai sy'n gweithio ynddi yn rhydd i ddatblygu eu strwythurau eu hunain a fydd yn eu galluogi i ymateb i amgylchiadau, disgwyliadau a blaenoriaethau lleol gwahanol.

5.20 Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau lleol eraill wedi chwarae rhan gref o ran atal troseddau, ac rydym am iddynt barhau i wneud hynny. Ond bwriadwn ryddhau partneriaid lleol cymaint â phosibl. Nid dim ond ail-lunio'r dirwedd mewn ffordd wahanol ond eto ag amodau y bwriadwn ei wneud, ond byddwn yn manteisio i'r eithaf ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, ac yn gadael cymaint o ryddid lleol â phosibl. Dylai pobl leol allu dweud eu dweud yn fwy o ran y ffordd y darperir gwasanaethau. Rydym am gael atebion lleol i broblemau lleol. Byddwn yn dileu amodau a biwrocratiaeth ddiangen gan ddiddymu rhai o'r rheoliadau ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, tra'n cadw'r ddyletswydd statudol graidd ddefnyddiol ar y partneriaid allweddol hynny i gydweithio. Rydym am glywed eich barn ar y ffordd orau o gyflawni hyn. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi dileu'r targedau di-rif ar gyfer Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar faterion lleol.



5.21 Er nad yw plismona na throseddau wedi'u datganoli, mae llawer o'r ffactorau a all ddylanwadu ar lefelau troseddu a throseddoldeb - iechyd, camddefnyddio sylweddau, addysg a thai - yn faterion y mae cyfrifoldeb amdanynt yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal, mae tri o chwe phartner statudol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol - Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaethau Tân ac Achub - wedi'u datganoli yng Nghymru. Byddwn yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid yng Nghymru i ryddhau partneriaid oddi wrth fiwrocratiaeth a sicrhau trefniadau partneriaeth a bennir yn lleol.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad:**

19. Beth arall y gall y Llywodraeth ei wneud i helpu'r cyhoedd i ymgymryd â rôl fwy gweithredol i gadw cymdogaethau'n ddiogel?

20. Sut y gall y Llywodraeth annog mwy o bobl i wirfoddoli (gan gynnwys fel cwnstabiliaid cynorthwyol) a darparu'r cymhellion angenrheidiol i'w hannog i aros?

21. Beth arall y gall Llywodraeth ganolog ei wneud i wneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithlon?

22. Pa amodau gan y Llywodraeth sy'n rhwystro gwaith partneriaeth lleol effeithiol?

23. Beth arall y mae angen ei wneud i symleiddio a gwella gwaith diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol yn lleol?


**Tabl 1: Rolau newydd i unigolion a sefydliadau allweddol**

<p><b>Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau</b></p>	<p>Byddant yn cynrychioli'r cyhoedd yn bwerus ym maes plismona gyda mandad clir. Byddant yn cynrychioli'r cyhoedd ac yn ymgysylltu â hwy, pennu blaenoriaethau plismona lleol, cytuno ar gynllun strategol lleol, dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif, pennu cyllideb a phraesept yr heddlu, penodi'r Prif Gwnstabl a, lle y bo angen, diswyddo'r Prif Gwnstabl.</p>
<p><b>Paneli'r Heddlu a Throseddau</b></p>	<p>Byddant yn sicrhau bod rôl drosolwg gadarn ar lefel yr heddlu ac y caiff penderfyniadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau eu profi ar ran y cyhoedd yn rheolaidd. Byddant yn cynnwys cyngorwyr sydd wedi'u hethol yn lleol o wardiau cyfansoddol ac aelodau annibynnol a lleyg a fydd yn cyflwyno sgiliau, profiad ac amrywiaeth ychwanegol i'r trafodaethau.</p> <p>Byddant yn cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer swydd y Prif Gwnstabl ac yn gallu cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer penodiadau eraill a wneir gan y Comisiynydd i'w staff, ond heb y pŵer i roi fetu ar hynny. Fodd bynnag, bydd ganddynt y pŵer i sbarduno refferendwm ar y praesept plismona a argymhellir gan y Comisiynydd.</p>
<p><b>Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs)</b></p>	<p>Mae'r partneriaethau hyn yn dod â'r asiantaethau amrywiol sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol ynghyd. Drwy ddiddymu rhai o'r rheoliadau ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedau, a chadw'r ddyletswydd statudol graidd ddefnyddiol ar y partneriaethau allweddol hynny i gydweithio, bydd gan Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yr hyblygrwydd i benderfynu ar y ffordd orau o wneud gwahaniaeth i'w cymunedau. Rydym yn ystyried creu pwerau galluogi i ddwyn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ynghyd ar lefel heddlu i ymdrin â materion o ran diogelwch cymunedol yn yr heddlu cyfan a rhoi rôl i Gomisiynwyr o ran comisiynu gwaith diogelwch cymunedol. Yng Nghymru, byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i gytuno ar y newidiadau sydd eu hangen.</p>
<p><b>Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO)</b></p>	<p>Y Gymdeithas hon fydd y sefydliad cenedlaethol a fydd yn gyfrifol am ddarparu'r arweiniad proffesiynol i wasanaeth yr heddlu, drwy ymgymryd â'r rôl arweiniol i bennu safonau a rhannu arfer gorau ym mhob un o weithgareddau'r heddlu. Bydd hefyd yn chwarae rhan arweiniol i sicrhau bod Prif Gwnstabliaid yn hybu gwerth am arian. Disgwylir iddi ddangos arweiniad cryf o ran hyrwyddo a chefnogi barn broffesiynol gynyddol ymhlith swyddogion a staff yr heddlu. Bydd ganddi strwythur llywodraethu a fydd yn cynnwys rôl allweddol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.</p>


<p><b>Asiantaeth Troseddau Genedlaethol</b></p>	<p>Bydd yn arwain y frwydr yn erbyn troseddau cyfundrefnol a'r gwaith o ddiogelu ein ffiniau. Bydd yn manteisio ar alluoedd cudd-wybodaeth, dadansoddi a gorfodi'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) bresennol, ond gan gysylltu'r galluoedd hyn yn well â'r galluoedd yng ngwasanaeth yr heddlu, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Asiantaeth Ffiniau'r DU ac amrywiaeth o bartneriaid cyfiawnder troseddol eraill.</p> <p>Caiff yr Asiantaeth ei harwain gan uwch Brif Gwnstabl a bydd yn cwmpasu nifer o 'unedau rheoli', gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Troseddau cyfundrefnol - yn gyfrifol am wella'r wybodaeth sydd gennym am y bygythiad gan droseddau cyfundrefnol; darparu prosesau pennu tasgau a chydgysylltu cenedlaethol effeithiol; a sicrhau mwy o weithgarwch gorfodi'r gyfraith yn erbyn mwy o droseddwyr cyfundrefnol am gost lai.</li> <li>• Plismona'r Ffiniau - yn gyfrifol am gydgyssylltu a phennu tasgau staff gweithredol ym maes gorfodi'r ffiniau, gan weithio yn unol â strategaeth genedlaethol, gan gynnwys asesiad o risgiau a blaenoriaethau</li> </ul> <p>Efallai y bydd yr Asiantaeth hefyd yn gyfrifol am swyddogaethau plismona cenedlaethol eraill, gan gynnwys rhai o'r swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona, a gaiff ei diddymu'n raddol.</p> <p>Bydd yr Asiantaeth yn destun trefniadau llywodraethu cadarn, a fydd yn gysylltiedig â'r rôl a gaiff ei chwarae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.</p>
<p><b>Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)</b></p>	<p>Bydd yn Arolygiaeth annibynnol gref, a fydd yn rhoi gwybodaeth wrthrychol a chadarn i'r cyhoedd, drwy gyfundrefnau arolygu llai manwl, am ganlyniadau plismona a gwerth am arian yn lleol er mwyn eu helpu i lunio barn hyddysg am berfformiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'u heddluoedd. Bydd yn cynghori'r Ysgrifennydd Cartref pan fydd gorchymyn i heddluoedd gydweithredu er budd cenedlaethol.</p>
<p><b>Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC)</b></p>	<p>Bydd yn ymchwilio i gwynion am achosion o gamymddwyn gan Gomisiynwyr a bydd yn gallu sbarduno achosion ailalw. Bydd yn helpu'r heddlu i ddysgu gwersi a darparu gwasanaeth gwell i'r cyhoedd.</p>

**Diagram 1: Y dirwedd blismona ar hyn o bryd**

## Llywodraeth Fawr - Lloegr



**Diagram 2: Y dirwedd blismona yn y dyfod**





## **Testun yr ymgynghoriad**

### **Cwmpas yr ymgynghoriad**

#### **Pwnc yr ymgynghoriad hwn:**

Mae'r ddogfen hon yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer plismona; sut y bydd yn lleihau troseddau ac yn diogelu'r cyhoedd, bod yn fwy atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd, cynnig gwerth am arian - a hynny oll drwy gydweithredu gwell, cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, llai o ymyrraeth a biwrocratiaeth gan y Llywodraeth a mwy o gyfrifoldeb a barn broffesiynol a thirwedd plismona a phartneriaeth newydd.

#### **Cwmpas yr ymgynghoriad hwn:**

Gellir rhannu elfennau'r ymgynghoriad hwn yn ddwy ran yn fras. Mae'r elfennau cyntaf yn ymrwymadau penodol a wnaed eisoes yng Nghytundeb y Glymblaid lle nad yw'r Llywodraeth yn ymgynghori ar ba un a ddylent ddigwydd ai peidio, ond yn hytrach yn ymgynghori ar y ffordd orau o'u gweithredu. Mae'r ail elfennau yn feysydd ehangach lle y mae'r Llywodraeth yn ceisio barn o ran a ddylid cyflawni ei hamcanion a'r ffordd o wneud hynny. Lle y bo'n bosibl, mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn y Cod Ymarfer ar Ymgynghori.

#### **Cwmpas daearyddol:**

Mae polisi ar blismona a phartneriaid cyfiawnder troseddol yn cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae partneriaid pwysig eraill ym maes atal troseddau, megis awdurdodau lleol, iechyd ac addysg, wedi'u datganoli yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sefydlu'r awdurdodaeth briodol ar gyfer yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol.

#### **Asesiad effaith:**

Er mwyn ein helpu i fodloni gofynion rheoleiddio'r Llywodraeth Glymblaid, bwriedir i'r ddogfen hon ysgogi trafodaeth a cheisio barn y rhai y mae'n debygol o effeithio arnynt ac unrhyw randdeiliaid â diddordeb. Caiff unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol a gyflwynir ar ôl yr ymgynghoriad hwn eu hategu gan Asesiad Effaith cadarn wedi'i ddatblygu'n llawn a fydd yn mesur yr effaith ar y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

## **Gwybodaeth Sylfaenol**

#### **I:**

Hoffem glywed barn unrhyw un sydd â diddordeb mewn plismona a diogelwch cymunedol.

#### **Hyd:**

Mae'r ymgynghoriad yn dechrau ar 26 Gorffennaf 2010 ac yn dod i ben ar 20 Medi 2010 (8 wythnos).

#### **Ymholiadau:**

Home Office  
Police and Crime Communications  
6<sup>th</sup> Floor, Fry Building  
2 Marsham Street  
London  
SW1P 4DF  
[CPGcommunications@Homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:CPGcommunications@Homeoffice.gsi.gov.uk)



**Sut i ymateb:**

Gallwch ymateb ar-lein yn:

<http://www.homeoffice.gov.uk/policingconsultation>

**Ffyrdd ychwanegol o gymryd rhan:**

Ymgynghoriad ar-lein fydd hwn. Bydd dogfen ymgynghori PDF ar gael i'w lawrlwytho ar-lein.

**Ar ôl yr ymgynghoriad:**

Cysylltwch â'r Swyddfa Gartref (fel uchod) os oes angen gwybodaeth arnoch mewn unrhyw fformat arall, megis Braille, ffont mawr neu dâp sain.

Y cam cyntaf fydd ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n berthnasol i'r ddeddfwriaeth ym Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol cyn cyflwyno'r Mesur yn ystod hydref 2010. Yr ail gam fydd crynhoi'r ymatebion i'r elfennau ehangach o'r ymgynghoriad, a'u hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu polisiau eraill.

### Ymatebion: Cyfrinachedd ac Ymwadiad

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom at gydweithwyr o fewn y Swyddfa Gartref, y Llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig.

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â chyfundrefnau cael gafael ar wybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os ydych am i'r wybodaeth arall a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd ymhlith pethau eraill.

Felly, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gallu egluro i ni pam y teimlwch fod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ar bob achlysur. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG ei ystyried, ynndo'i hun, yn gyfrwymol ar yr Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y mwyafrif o achosion, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i unrhyw drydydd partion.

### Fformatau amgen

Byddwn yn cynnig y fformatau hyn o dan y Ddeddf Anabledd ac yn eu darparu ar gais.

### Meini prawf yr ymgynghoriad

Lle y bo'n bosibl, mae'r Ymgynghoriad yn dilyn y Cod Ymarfer ar Ymgynghori - nodir y meini prawf ar ei gyfer isod.

***Maen prawf 1 - Pryd i ymgynghori - Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol pan fo modd dylanwadu ar ganlyniad polisi.***

***Maen prawf 2 - Hyd ymgynghoriadau - Fel arfer, dylai ymgynghoriadau bara 12 wythnos o leiaf gan ystyried amserlenni hwy lle y bo'n ymarferol ac yn gwneud synnwyr.***

***Maen prawf 3 - Eglurder o ran cwmpas ac effaith - Dylai dogfennau'r ymgynghoriad fod yn glir ynghylch y broses ymgynghori, yr hyn a gynigir, faint o ddylanwad y gellid ei gael a chostau a manteision disgwylidig y cynigion.***

***Maen prawf 4 - Hygyrchedd ymgynghoriadau - Dylai'r ymgynghoriadau gael eu cynllunio mewn modd sy'n eu gwneud yn hygyrch i'r bobl hynny y bwriedir iddynt eu cyrraedd, a dylent gael eu targedu atynt.***

***Maen prawf 5 - Y baich ymgynghori - Dylid sicrhau bod ymgynghoriadau mor ddidrafferth â phosibl er mwyn iddynt fod yn effeithiol ac er mwyn i'r ymgynghoreion gyfrannu at y broses.***

**Maen prawf 6 - Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori - Dylai'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu dadansoddi'n ofalus a dylid rhoi adborth clir i'r rhai sydd wedi cyfrannu yn dilyn yr ymgynghoriad.**

**Maen prawf 7 - Gallu i ymgynghori - Dylai'r swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau geisio arweiniad ar sut i gynnal ymgynghoriad effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r profiad.**

Mae'r Cod Ymarfer llawn ar Ymgynghori ar gael yn:

<http://www.berr.gov.uk/whatwedo/bre/consultation-guidance/page44420.html>

### Cydgysylltydd Ymgynghori

Os bydd gennych gŵyn neu sylw ynghylch dull y Swyddfa Gartref o gynnal yr ymgynghoriad, dylech gysylltu â Chydgysylltydd Ymgynghori'r Swyddfa Gartref, Nigel Lawrence. PEIDIWCH ag anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn at Nigel Lawrence. Mae'r Cydgysylltydd yn gweithio i hyrwyddo safonau arfer gorau a bennir gan y Cod Ymarfer, mae'n cynghori timau polisïau ar sut i gynnal ymgynghoriadau ac mae'n ymchwilio i gwynion a wneir yn erbyn y Swyddfa Gartref. Ni fydd yn prosesu eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Gallwch anfon neges e-bost at y Cydgysylltydd Ymgynghori yn:

Nigel.Lawrence@homeoffice.gsi.gov.uk neu fel arall gallwch ysgrifennu ato yn:

Nigel Lawrence, Consultation Co-ordinator  
Home Office  
Performance and Delivery Unit  
Better Regulation Team  
3<sup>rd</sup> Floor Seacole  
2 Marsham Street  
London  
SW1P 4DF